Canllawiau ar Baratoi Cynlluniau Pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3

Cylchythyr Canllawiau

Rheoli a Llywodraethu Ysgolion

Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif y Cylchlythyr: 30/2006
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2006

Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Teitl y ddogfen:	Canllawiau ar Baratoi Cynlluniau Pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 .
Y Gynulleidfa:	Prif Weithredwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru; Cyfarwyddwyr Addysg Cynghorau Sir a Cynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru; CLlLC; y Comisiwn Archwilio yng Nghymru; Ysgolion Cynradd ac Uwchradd a gynhelir yng Nghymru.
Trosolwg:	Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar gyfer ysgolion ar sut i lunio cynlluniau i helpu disgyblion wrth drosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd.
Gweithredu:	Mae angen i ysgolion ac AALlau roi sylw i'r canllawiau wrth greu'r cynlluniau.
Gwybodaeth bellach:	Dylid anfon ymholiadau ynglyn â'r ddogfen hon at Tony Peters: Ffôn: 029 2082 6061 Ffacs: 029 2082 6016
Copïau ychwanegol:	Gallwch gael copïau ychwanegol o'r ddogfen gyfarwyddyd hon oddi wrth Mr Chris Roderick: Ffôn: 029 2082 3056 Ffacs: 029 2082 6016 trwy ysgrifennu i'r cyfeiriad isod, neu yn electronig oddi wrth **www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau**
Cyfeiriad:	Is-adran Perfformiad a Gwella 3 Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
Dogfennau cysylltiedig:	"Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3" (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn ac ACCAC Hydref 2002) "Symud Ymlaen.... Trosglwyddo Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 (Estyn, Ionawr 2004) " Symud Ymlaen...Gwella Dysgu - Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 (Estyn – Gorffennaf 2004) "Pontio'r Bwlch" – (ACCAC Tachwedd 2004) Dogfen Ymgynghori: "Trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd" (Llywodraeth Cynulliad Cymru – Tachwedd 2004) Ymgynghoriad ynglyn â Grant Llywodraeth Cynulliad Cymru i Drosglwyddo rhwng Cyfnodau Allweddol 2-3" (Chwefror 2006)

G/123/06-07
ISBN 0 7504 8821 2
Medi
CMK-22-07-128
Cysodwyd mewn teip 12pt
©Hawlfraint y Goron 2006

CYNNWYS

		Tudalen
CRYNODEB		**3**
ADRAN 1:	**Y CYD-DESTUN**	**4**
	Y Cyd-destun Polisi	4
	Y Cyd-destun Cyfreithiol	5
ADRAN 2:	**GOFYNION AR GYFER CYNLLUNIAU TROSGLWYDDO**	**6**
	Categorïau ysgolion	6
	Y diffiniad o ysgol gynradd sy'n bwydo	6
	Eithrio rhag y gofyniad i lunio Cynllun Trosglwyddo	7
	Partneriaeth wrth gynllunio	8
	Cynnwys Craidd yr holl Gynlluniau Trosglwyddo	8
	Meysydd dewisol i'w cynnwys mewn Cynlluniau Trosglwyddo	9
	Dilyniant Ieithyddol	9
	Rhagori	10
	Cyhoeddi Cynlluniau Trosglwyddo	10
	Adolygu Cynlluniau Trosglwyddo	11
	Anghydfodau	11
ADRAN 3:	**DATBLYGU CYNLLUN TROSGLWYDDO**	**12**
	Manteision sydd i'w cael o gynllunio ar gyfer trosglwyddo	12
	Sut y gallai ysgolion fynd ynghylch rheoli'r gwaith o lunio cynllun trosglwyddo	14
	Pa faterion y bydd yn rhaid ymdrin â hwy mewn cynllun?	16
ADRAN 4:	**CYMORTH A CHANLLAWIAU**	**24**
	Deunyddiau canllaw	24
	Cronfa Ysgolion Gwell a HMS	25
	Grant Trosglwyddo Cyfnodau Allweddol 2 a 3 Llywodraeth Cynulliad Cymru	25
	Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol	25

Tudalen

Atodiad 1:	Crynodeb o'r gofynion ar gyfer Cynllun Trosglwyddo, templed Cynllun Trosglwyddo a templed Cynllun Prosiect	26
Atodiad 2:	Rhestrau gwirio i'w defnyddio gan ysgolion wrth ymdrin â phob un o'r meysydd craidd sydd i'w cynnwys mewn Cynllun Trosglwyddo	41
Atodiad 3:	Rheoliadau Trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006 (OS 2006 Rhif 520 (Cy.64))	51
Atodiad 4:	Gofyniad am lunio Cynlluniau Trosglwyddo ac arweiniad 2006	

CANLLAWIAU AR BARATOI CYNLLUNIAU TROSGLWYDDO O GYFNOD ALLWEDDOL 2 I GYFNOD ALLWEDDOL 3

CRYNODEB

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau i gyrff llywodraethu ac uwch dimau rheoli ysgolion uwchradd a gynhelir, ysgolion cynradd a gynhelir sydd â darpariaeth Blwyddyn 6 ac awdurdodau addysg lleol ar:

- yr amgylchiadau lle y mae Cynllun Trosglwyddo yn ofynnol;
- y meysydd y mae'n rhaid ymdrin â hwy mewn Cynllun Trosglwyddo;
- y gofynion ar gyfer cyhoeddi ac adolygu Cynllun Trosglwyddo.

Mae'r cynlluniau cyntaf i fod wedi'u cwblhau erbyn Medi 2007.

Deddf Addysg 2002

Mae adran 198 o Ddeddf Addysg 2002 yn ddarpariaeth ar gyfer Cymru'n unig sy'n rhoi pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir a'r ysgolion cynradd a gynhelir sy'n eu bwydo gydlunio cynlluniau trosglwyddo, y mae eu manylion i'w nodi mewn Rheoliadau.

Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n cyflawni swyddogaethau dan yr adran honno roi sylw i ganllawiau'r Cynulliad wrth wneud hynny. Mae'r adran yn darparu hefyd fod rhaid ystyried canllawiau'r Cynulliad wrth benderfynu a yw ysgol benodol i'w hystyried yn "ysgol gynradd sy'n bwydo" mewn cysylltiad ag ysgol uwchradd neilltuol.

Rhoddir y canllawiau olaf mewn dogfen o'r enw "Gofyniad am lunio Cynlluniau Trosglwyddo 2006" (gweler Atodiad 4) sydd hefyd yn ymgorffori gofyniad ffurfiol y Cynulliad dan adran 198. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r canllawiau hynny ac o delerau'r gofyniad hwnnw, ac yn cynnig canllawiau ychwanegol ar Gynlluniau Trosglwyddo.

ADRAN 1 - Y CYD-DESTUN YM MHOLISI A'R GYFRAITH

Y Cyd-destun Polisi

1.1 Yn Y Wlad sy'n Dysgu nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hymrwymiad i wella dilyniant a chynnydd mewn dysgu ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n symud o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Er mwyn galluogi disgyblion i gynnal a datblygu'r momentwm a sicrhawyd yng Nghyfnod Allweddol 2, rhaid i bawb sy'n gysylltiedig fod â disgwyliadau uchel o ran yr hyn y gall disgyblion ei gyflawni, gweithio mewn partneriaeth i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu a sicrhau dilyniant wrth gyflwyno'r cwricwlwm.

1.2 Mae Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant, wedi darparu cyfres o adroddiadau a chynghorion sydd wedi creu sylfaen dystiolaeth ar gyfer camau gweithredu i wella'r trefniadau cynllunio ar gyfer trosglwyddo. Yn benodol, er bod yr Arolygiaeth yn nodi bod cysylltiadau bugeiliol da gan ysgolion cynradd ac uwchradd, mae wedi dod i'r casgliad bod angen rhoi mwy o sylw i gamau i wella dilyniant wrth gyflwyno'r cwricwlwm a chael mwy o gysondeb o ran arferion ystafell ddosbarth ym Mlwyddyn 6 a Blwyddyn 7.

1.3 Yn y cyd-destun hwn, mae'r Arolygiaeth wedi nodi bod cynlluniau a rhaglenni da gan lawer o AALlau ac ysgolion i wella'r broses drosglwyddo mewn addysg. Mae'r cynlluniau mwyaf effeithiol yn nodi'r gwahanol agweddau ar drosglwyddo, sut y gwneir gwelliannau a'r priod rolau a chyfrifoldebau ar gyfer arwain a rheoli'r broses drosglwyddo. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi gwella rhai agweddau ar y broses trosglwyddo, dim ond ychydig o ysgolion cynradd ac uwchradd sydd â pholisïau cynhwysfawr ar y cyd i ffurfioli trefniadau trosglwyddo, gan gynnwys rhai ar gyfer dulliau cytûn o reoli'r broses drosglwyddo, rhannu gwybodaeth am gyflawniadau ac anghenion dysgu disgyblion, dulliau dysgu ac addysgu, asesu, dilyn cynnydd disgyblion, trefnu'r cwricwlwm a datblygiad proffesiynol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn monitro ac yn adolygu trefniadau trosglwyddo, ond nid ydynt yn gwerthuso effaith yr arferion ar ddysgu a safonau.

1.4 Er mwyn rhoi sylw i hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad, gan arfer pwerau yn adran 198 o Ddeddf Addysg 2002, wedi cyflwyno gofynion bod ysgolion uwchradd a gynhelir ac ysgolion cynradd a gynhelir sy'n eu bwydo yn creu cynlluniau i hwyluso'r broses o drosglwyddo disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Bydd cynlluniau o'r fath yn ychwanegu gwerth at drefniadau sy'n bod eisoes drwy sicrhau bod trefniadau manwl a chyson ar gyfer symud disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Byddant yn dod ag arferion da at ei gilydd ac yn eu datblygu ac yn pennu agenda ar gyfer gwella sy'n adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion lleol.

Y Cyd-destun Cyfreithiol

1.5 Mae adran 198 o Ddeddf Addysg 2002 yn ddarpariaeth ar gyfer Cymru'n unig sy'n rhoi pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir a'r ysgolion cynradd a gynhelir sy'n eu bwydo gydlunio cynlluniau trosglwyddo, y mae eu manylion i'w nodi mewn rheoliadau. Mae'r adran yn darparu hefyd fod rhaid ystyried Canllawiau'r Cynulliad wrth benderfynu a yw ysgol gynradd benodol i'w hystyried yn "ysgol gynradd sy'n bwydo" mewn cysylltiad ag ysgol uwchradd neilltuol.

1.6 Rhwng Tachwedd 2004 a Chwefror 2005 ymgynghorodd Llywodraeth y Cynulliad ar gynigion ar gyfer Cynlluniau Trosglwyddo statudol. Yn gyffredinol, roedd y sylwadau a gafwyd yn rhai cadarnhaol a chafwyd cefnogaeth gan ymatebwyr i'r cynigion a nodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Rhoddwyd sylw i'r ymatebion wrth ddatblygu:

- **Rheoliadau Trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006 (OS 2006 Rhif 520 (Cy.64)).** Mae'r rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion manwl a roddwyd ar Gyrff Llywodraethu ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd sy'n eu bwydo i lunio Cynllun Trosglwyddo gan gynnwys rhai ar amseriad a chynnwys y cynlluniau a threfniadau i'w hadolygu a'u diwygio. Ceir copi o'r Rheoliadau yn Atodiad 3;

- **Gofyniad am lunio Cynlluniau Trosglwyddo ac Arweiniad 2006.** Mae'r offeryn hwn yn arfer y pŵer a roddwyd i'r Cynulliad gan adran 198 o Ddeddf Addysg 2002, i fynnu bod ysgolion yn llunio Cynlluniau Trosglwyddo ac i gyhoeddi canllawiau ynghylch a yw ysgol benodol i'w hystyried yn ysgol gynradd sy'n bwydo mewn cysylltiad ag ysgol uwchradd neilltuol i ddibenion yr adran honno. Ceir copi yn Atodiad 4.

1.7 Daw'r Rheoliadau a'r Gofyniad / Arweiniad i rym ar 1 Medi 2006 ac mae'r Cynlluniau Trosglwyddo cyntaf i fod yn barod erbyn mis Medi 2007, neu cyn hynny, ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 sy'n symud i Flwyddyn 7 ym mis Medi 2008.

ADRAN 2 - GOFYNION AR GYFER CYNLLUNIAU TROSGLWYDDO

2.1 Yn yr adran hon, nodir yr amgylchiadau lle y mae Cynllun Trosglwyddo yn ofynnol, y meysydd sydd i'w trin mewn Cynllun Trosglwyddo a'r gofynion ar gyfer cyhoeddi ac adolygu Cynllun Trosglwyddo.

2.2 Ceir cyngor manwl am y modd y gall ysgolion gydweithio i ddatblygu Cynllun Trosglwyddo, gydag enghreifftiau o arferion da, yn adran 3.

Categorïau ysgolion

2.3 Mae'r gofyniad i lunio Cynllun Trosglwyddo yn berthnasol i:

- ysgolion uwchradd cymunedol, gwirfoddol a sefydledig os oes ganddynt ysgolion cynradd sy'n eu bwydo fel y maent wedi'u diffinio i ddibenion adran 198 o Ddeddf Addysg 2002; ac
- ysgolion cynradd cymunedol, gwirfoddol a sefydledig os ydynt wedi'u diffinio'n ysgol gynradd sy'n bwydo i ddibenion adran 198 o Ddeddf Addysg 2002.

Y diffiniad o ysgol gynradd sy'n bwydo

2.4 Mae Cynlluniau Trosglwyddo yn ceisio hybu a gwella'r cysylltiadau rhwng ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd sy'n eu bwydo gan roi sylw'n benodol i waith ar y cyd i ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm mewn modd sy'n hybu dilyniant a chynnydd mewn dysgu ar gyfer disgyblion wrth iddynt symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

2.5 Derbynnir bod gan bob ysgol gynradd yng Nghymru gysylltiadau eisoes â nifer o ysgolion uwchradd. Er hynny, fel y nodwyd yn nogfen ymgynghori Llywodraeth y Cynulliad ac fel y mae ymatebwyr wedi cadarnhau, ni fyddai'n briodol nac yn ymarferol mynnu bod ysgol gynradd yn gwneud Cynllun Trosglwyddo ffurfiol gyda phob ysgol uwchradd y mae'n gweithio gyda hi.

2.6 Felly, mae'r gofyniad cyfreithiol am lunio Cynlluniau Trosglwyddo yn gyfyngedig i achosion lle y mae perthynas sefydledig a pharhaol rhwng ysgol gynradd ac ysgol uwchradd benodol sy'n seiliedig ar y ffaith bod y rhan fwyaf o'r garfan Blwyddyn 6 yn yr ysgol gynradd yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. **Ar y sail honno, mae'r Gofyniad am lunio Cynlluniau Trosglwyddo ac Arweiniad 2006 yn darparu y dylid ystyried ysgol yn ysgol gynradd sy'n bwydo ysgol uwchradd neilltuol os yw mwy na hanner y garfan Blwyddyn 6 wedi trosglwyddo i'r ysgol uwchradd ar ddiwedd y flwyddyn ysgol ddiwethaf**.

2.7 Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n ofynnol i'r ysgol uwchradd a'r ysgol gynradd sy'n ei bwydo gydweithio i greu Cynllun Trosglwyddo. Mae hyn yn sicrhau bod Cynlluniau Trosglwyddo yn cael eu gwneud lle y mae sylfaen gadarn ar gyfer cydweithio rhwng ysgolion a chamau

gweithredu ymarferol i wella dilyniant wrth gyflwyno'r cwricwlwm. Mae hefyd yn ysgafnhau'r baich ar ysgolion gan nad oes gofyniad statudol i ysgol gynradd gydweithio â mwy nag un ysgol uwchradd wrth ddatblygu Cynllun Trosglwyddo.

2.8 Yn ymarferol, mae hyn yn golygu, os yw mwy na hanner y garfan Blwyddyn 6 mewn ysgol gynradd yn 2005-06 yn symud i ysgol uwchradd neilltuol, y bydd gofyniad i'r ddwy ysgol - ac ysgolion eraill sydd wedi'u pennu'n ysgolion cynradd sy'n bwydo - gydweithio ym mlwyddyn ysgol 2006-07 i lunio Cynllun Trosglwyddo sydd i'w gwblhau cyn neu erbyn mis Medi 2007. Y garfan gyntaf i'w chynnwys yn y Cynllun hwn fydd y disgyblion mewn ysgolion cynradd sy'n bwydo y mae disgwyl iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd ym Medi 2008.

2.9 Dylid adolygu'r berthynas hon bob blwyddyn i benderfynu, os bu newid ym mhatrymau symud y disgyblion, a oes angen Cynllun Trosglwyddo o hyd.

2.10 Mae hyn yn gosod gofyniad cyfreithiol sylfaenol. Fodd bynnag, derbynnir bod gan ysgolion cynradd gysylltiadau'n aml â nifer o ysgolion uwchradd lle y mae llai na 50% o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn symud i'r ysgol uwchradd. Yn ogystal â hynny, efallai y ceir bod nifer bach o ysgolion cynradd na ellir eu pennu'n ysgol gynradd sy'n bwydo ysgol uwchradd neilltuol. Mewn achosion o'r fath, nid oes gofyniad statudol am Gynllun Trosglwyddo. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau o'r fath, anogir cyrff llywodraethu ac uwch dimau rheoli i ystyried a allent wneud trefniadau gwirfoddol i hybu a gwella'r cynllunio ar gyfer trosglwyddo gan ddefnyddio'r fformat cyffredinol sydd wedi'i ddarparu ar gyfer Cynlluniau Trosglwyddo.

2.11 Yn yr un modd, os bydd y gofyniad cyfreithiol am gynllun yn dod i ben yn y dyfodol am fod nifer y disgyblion Blwyddyn 6 yn yr ysgol gynradd yn mynd yn is na 50%, anogir y partneriaid i ystyried a ddylid parhau â'r trefniadau cynllunio'n wirfoddol.

2.12 Nid yw'r diffiniad o ysgol gynradd sy'n bwydo ond yn bod i ddibenion adran 198 o Ddeddf Addysg 2002. Nid yw'n cael blaenoriaeth dros y meini prawf presennol ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion uwchradd nac yn pennu dalgylch ysgol uwchradd benodol.

Eithrio rhag y gofyniad i lunio Cynllun Trosglwyddo

2.13 Mewn ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cynlluniau Trosglwyddo, dadleuwyd bod canran gyffredinol y disgyblion sy'n symud i ysgol uwchradd benodol yn gallu newid yn sylweddol bob blwyddyn os yw'r garfan Blwyddyn 6 yn yr ysgol yn un fach. Mae'r pwynt hwn wedi'i dderbyn. **Os yw cyfanswm nifer y disgyblion cofrestredig mewn ysgol sydd â disgyblion Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 yn 50 neu'n llai a nifer y disgyblion cofrestredig mewn ysgol sydd â disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn unig yn 32 neu'n llai, mae ysgolion o'r fath wedi'u heithrio rhag y gofynion statudol i lunio Cynllun Trosglwyddo**.

2.14 Mae nifer yr ysgolion sydd mewn amgylchiadau o'r fath yn gymharol fach. Fodd bynnag, anogir ysgolion o'r fath i wneud trefniadau cynllunio gwirfoddol gydag ysgolion uwchradd i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer trosglwyddo.

Partneriaeth wrth gynllunio

2.15 Oherwydd yr angen am bartneriaeth effeithiol wrth reoli'r broses drosglwyddo, mae'r cynlluniau i'w llunio ar y cyd. Felly, bydd yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo a enwyd yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a chadw Cynllun Trosglwyddo. **Bydd y gwaith gorffenedig yn gynllun sengl y mae Cyrff Llywodraethu'r ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd wedi cytuno arno sy'n darparu ar gyfer cyfnod o dair blynedd**. Bydd y cynllun yn cyfuno'r trefniadau sydd wedi'u datblygu gan yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo mewn un ddogfen er y gallai gynnwys darpariaeth ar wahân ar gyfer ysgolion cynradd neilltuol sy'n ei bwydo os credir bod hynny'n briodol.

2.16 Mae'n bwysig i ddisgyblion a rhieni gael cyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r cynllun ac i wneud sylwadau am y camau gweithredu sydd wedi'u cynnig. Mater i'r ysgolion yw penderfynu ar y modd gorau i ddelio â hyn. Yn ogystal â hynny, mae awdurdodau addysg lleol yn chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo proses drosglwyddo effeithiol drwy eu strategaethau gwella ysgolion. Awgrymir y dylid rhoi cyfle i awdurdodau addysg lleol wneud sylwadau am Gynlluniau Trosglwyddo wrth eu datblygu. Ceir canllawiau ar arferion yn y ddau faes hyn yn Adran 3.

Cynnwys Craidd yr holl Gynlluniau Trosglwyddo

2.17 Y bwriad yw y bydd Cynlluniau Trosglwyddo yn canolbwyntio, yn bennaf, ar hyrwyddo dilyniant a chynnydd wrth gyflwyno'r cwricwlwm a gwell cysoni ar arferion yn yr ystafell ddosbarth.

2.18 Rhaid i'r holl gynlluniau nodi sut y bydd yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd yn cydweithio i roi sylw i'r meysydd canlynol.

Rheoli a chyd-drefnu'r broses trosglwyddo. Er enghraifft, trefniadau a chyfrifoldebau ar gyfer cynllunio'r broses trosglwyddo ym mhob ysgol a chyd-drefnu â phartneriaid**.**

Cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd. Er enghraifft, trefniadau i athrawon pwnc uwchradd a chydgysylltwyr pwnc cynradd gael datblygu cynlluniau gwaith ar y cyd mewn un neu ragor o feysydd pwnc gan ategu hynny o bosibl â'r defnydd o Unedau Pontio neu drefniadau penodol i sicrhau dilyniant yn y profiad dysgu a chynnydd mewn pwnc penodol neu gyfrwng yr addysg, er enghraifft, dilyniant ieithyddol yn y Gymraeg.

Sicrhau dilyniant o ran dulliau dysgu ac addysgu. Er enghraifft, trefniadau ar gyfer arsylwi ar arferion yn yr ystafell ddosbarth fel y caiff pynciau eu haddysgu mewn modd sy'n darparu ar gyfer dilyniant ac yn datblygu dulliau'r ysgol gynradd.

Sicrhau cysondeb o ran asesu a monitro a dilyn cynnydd disgyblion gan ei gymharu â'u cyrhaeddiad blaenorol. Er enghraifft, creu gwell cyfleoedd i athrawon weithio gyda'i gilydd i asesu gwaith disgyblion wrth iddynt symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, gan gynnwys gwaith ar gymedroli Asesiadau Athrawon.

Gwerthuso effaith y polisi a chynlluniau gwella ar safonau. Er enghraifft, monitro ac adolygu trefniadau trosglwyddo ac ystyried dulliau o werthuso effaith arferion gwell ar ansawdd y dysgu a safonau.

Meysydd dewisol i'w cynnwys mewn Cynlluniau Trosglwyddo

2.19 Mater i'w benderfynu gan ysgolion yn lleol yw a fyddant yn ychwanegu'r rhain. Er enghraifft, gallai ysgolion ddewis ymdrin â'r meysydd canlynol.

Cysylltiadau bugeiliol i fodloni anghenion personol a chymdeithasol y disgyblion. Er enghraifft, rhannu gwybodaeth am ddisgyblion, ymweld ag ysgolion a chymorth i ddisgyblion drosglwyddo o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7**.**

Rhannu gwybodaeth am gyflawniadau a chyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion. Er enghraifft, drwy ychwanegu at y gofynion statudol presennol sy'n cael eu bodloni drwy'r System Drosglwyddo Gyffredin.

Rhoi gwybod am anghenion dysgu disgyblion penodol. Er enghraifft, gwybodaeth a threfniadau ar gyfer y rhai sydd ag anghenion addysgol ychwanegol, y rhai y mae Saesneg/Cymraeg yn iaith ychwanegol iddynt, disgyblion mwy abl a thalentog, a disgyblion a all fod mewn perygl o dangyflawni am amryw o resymau.

2.20 Mae'r Cynllun Trosglwyddo yn cynnig strwythur i ffurfioli'r ddarpariaeth bresennol a nodi cynlluniau ar gyfer gwella. Mater i'w benderfynu gan gyrff llywodraethu ac uwch dimau rheoli yw targedau a'r amrediad o weithgareddau a gynigir, yn unol â'u blaenoriaethau ar gyfer gwella. Er enghraifft, gyda golwg ar gynllunio'r cwricwlwm ar y cyd, gallai ysgolion ddewis canolbwyntio ar ddilyniant wrth ddysgu un neu ragor o'r pedwar pwnc craidd - Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Fel arall, gallai eraill roi pwys ar themâu trawsbynciol fel hyrwyddo llythrennedd, rhifedd a TGCh neu gyfeirio'n benodol at yr angen i roi sylw i ddilyniant a chynnydd yn y Gymraeg, boed hynny fel pwnc neu fel cyfrwng addysg.

2.21 Mater i gyrff llywodraethu yw penderfynu ar flaenoriaethau ym mhob rhan o'r Cynllun Trosglwyddo a chytuno ar gamau gweithredu, targedau a chyflymder datblygu sy'n adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion lleol.

Dilyniant Ieithyddol

2.22 Yn Iaith Pawb, rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bwys ar yr angen i roi sylw i ddilyniant ieithyddol fel bod disgyblion yn dal i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg wrth iddynt symud o'r naill gyfnod i'r llall yn eu haddysg.

2.23 Wrth lunio Cynlluniau Trosglwyddo, dylai ysgolion ystyried a oes angen cymryd camau i wella dilyniant ieithyddol wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Er enghraifft, gallai ysgolion ystyried y modd gorau i ddarparu ar gyfer llwybrau ieithyddol fel bod disgyblion sydd wedi astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn yr ysgol gynradd yn dal i wneud hynny yn yr ysgol uwchradd. Yn yr un modd, gellid nodi mewn cynlluniau, os yw hynny'n briodol, sut y bydd ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd fel bod disgyblion sydd wedi derbyn y cwbl neu ran o'u haddysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu parhau i gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol uwchradd a datblygu eu sgiliau ieithyddol i'r graddau mwyaf posibl.

2.24 Yn ogystal â hynny, nid yw'n dilyn o reidrwydd, os yw disgyblion wedi derbyn y rhan fwyaf o'u haddysg gynradd drwy gyfrwng y Saesneg, y dylent barhau i wneud hynny. Gallai cynlluniau ddarparu bod disgyblion o'r fath yn cael cyfran fwy o'u gwersi drwy gyfrwng y Gymraeg os gellir cynnig darpariaeth addas a llwybrau ieithyddol priodol.

Rhagori

2.25 Mae Rhagori (Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru) yn targedu'r cysylltiadau rhwng anfantais a chyrhaeddiad addysgol ymysg disgyblion. Bydd cyfanswm o £14.4 miliwn yn cael ei ddyrannu i ysgolion cymwys penodol yn 2006-07, a'i ddosbarthu ar sail nifer a chyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau am ddim yn yr ysgol. Bydd ysgolion Rhagori yn cael cyllid am ddwy flynedd. Anogir ysgolion i ddatblygu dulliau gweithredu ar y cyd â phartneriaid ac, os yw'n briodol, i weithio mewn clystyrau o ysgolion.

2.26 Bydd y cyllid ar gael i ddarparu cymorth ychwanegol yn yr ystafell ddosbarth i ddisgyblion sydd dan anfantais ac sydd yn y perygl mwyaf o adael yr ysgol heb gymwysterau. Gellir ei ddefnyddio i gadw disgyblion o weithgareddau ystafell ddosbarth er mwyn canolbwyntio ar lythrennedd, rhifedd ac agweddau eraill ar ddysgu, i ddarparu gweithgareddau y tu allan i oriau arferol, i ddatblygu cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol, i gael cymorth o'r gymuned ac i roi sylw i faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad a disgyblaeth. Os yw ysgol gynradd sy'n bwydo wedi derbyn cyllid Rhagori, dylai Cynlluniau Trosglwyddo nodi'r amrediad o gymorth ychwanegol sydd wedi'i ddarparu ar gyfer grwpiau o ddisgyblion a nodi sut y bydd yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu ac ychwanegu at y cymorth a roddir i ddisgyblion sydd dan anfantais ac sydd yn y perygl mwyaf o adael yr ysgol heb gymwysterau neu'n cael eu hystyried yn rhai sy'n tangyflawni.

Cyhoeddi Cynlluniau Trosglwyddo

2.27 Rhaid anfon copi o'r Cynllun Trosglwyddo i Awdurdod Addysg Lleol yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo. Os yw'r ysgolion yn cael eu cynnal gan fwy nag un awdurdod, dylid anfon copi i bob un o'r awdurdodau addysg lleol perthnasol.

2.28 Dylid sicrhau bod y Cynllun Trosglwyddo ar gael i'w archwilio yn yr ysgol uwchradd y mae'n berthnasol iddi ac ym mhob un o'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo. Dylai copi o'r Cynllun Trosglwyddo fod ar gael hefyd ar gais. Efallai y bydd Cyrff Llywodraethu'n dymuno gosod ffi am ddarparu copi (i rywun heblaw AALl) er na ddylai godi mwy na'r gost o'i gynhyrchu.

Adolygu Cynlluniau Trosglwyddo

2.29 Mater i'w benderfynu gan gyrff llywodraethu a thimau rheoli ysgol yw a ddylid adolygu'r cynllun bob blwyddyn a'i dreiglo ymlaen i roi sylw i unrhyw newid mewn amgylchiadau. Fodd bynnag, rhaid adolygu cynlluniau dan yr amgylchiadau canlynol:

a) pan fydd ysgol gynradd yn dod yn ysgol gynradd sy'n bwydo ysgol uwchradd o'r newydd (os yw un neu ragor o ysgolion cynradd yn bwydo'r ysgol honno eisoes);

b) os yw cyrff llywodraethu'r holl ysgolion sy'n gysylltiedig o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol gwneud newidiadau;

c) cyn trydydd pen blwydd y Cynllun Trosglwyddo cyntaf a chyn diwedd pob cyfnod o dair blynedd ar ôl hynny.

2.30 Er mwyn gweld y gofynion manwl sy'n ymwneud ag adolygiadau, dylid troi at y Rheoliadau (gweler Atodiad 3). Os penderfynir peidio â diwygio'r cynllun, o ganlyniad i adolygiad dan baragraff 2.29(b) neu baragraff 2.29(c), rhaid i'r cyrff llywodraethu gyhoeddi datganiad yn cofnodi'r penderfyniad hwnnw ac yn rhoi eu rhesymau.

Anghydfodau

2.31 Mae'r rheoliadau'n darparu hefyd fod y Cynulliad Cenedlaethol yn cael penderfynu ynghylch unrhyw anghydfod o ran a yw ysgol benodol yn ysgol gynradd sy'n bwydo i ddibenion adran 198 o Ddeddf Addysg 2002. Rhagwelir y bydd y sefyllfa'n cael ei hegluro, yn y rhan fwyaf o achosion, drwy edrych ar yr wybodaeth y mae ysgolion a'r awdurdod addysg lleol yn ei dal am gyrchfannau disgyblion sy'n cwblhau Blwyddyn 6.

2.32 Er hynny, mae'n bosibl y bydd achosion lle na ellir datrys anghydfodau drwy drafodaeth ar lefel leol. Mewn achosion o'r fath, dylid cyfeirio anghydfodau i sylw Pennaeth yr Is-adran Perfformiad a Gwella, Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

ADRAN 3 - DATBLYGU CYNLLUN TROSGLWYDDO

3.1 Yn yr adran hon, rhoddir cyngor, ynghyd ag enghreifftiau o arferion da i Gyrff Llywodraethu a thimau rheoli ysgol, ar ddatblygu Cynllun Trosglwyddo. Ymdrinnir â phob un o'r meysydd sydd wedi'i nodi'n ofyniad craidd a chynigir canllawiau ar y modd y gellir delio â hwy wrth ddatblygu Cynllun Trosglwyddo. Dylid ei darllen ar y cyd ag:

- **Atodiad 1** sy'n rhoi crynodeb o'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn Cynllun Trosglwyddo, templed y gallai ysgolion ddymuno ei ddefnyddio i lunio Cynllun Trosglwyddo ac enghraifft o gynllun prosiect y gellid ei ddefnyddio i nodi sut y gallai ysgolion sy'n bartneriaid roi sylw i faes y mae angen ei wella.

- **Atodiad 2** sy'n crynhoi cwestiynau mewn rhestrau gwirio i'w defnyddio gan ysgolion i'w helpu i ymdrin â phob un o'r meysydd craidd sydd i'w cynnwys mewn Cynllun Trosglwyddo.

Manteision sydd i'w cael o gynllunio ar gyfer trosglwyddo

3.2 Mae'r ysgolion sydd wedi'u portreadu yn y canllawiau a luniwyd fel rhan o raglen **Anelu at Ragoriaeth** (gweler adran 4 am fanylion) yn cynnig tystiolaeth bod cynllunio effeithiol ar gyfer trosglwyddo, drwy ymgynghori, gweithredu ac adolygu ar y cyd, yn gallu dod â'r manteision canlynol:

- gwell dysgu wrth i ddisgyblion ddatblygu'r hyn y maent wedi'i gyflawni yng Nghyfnod Allweddol 2 a chael cymorth i symud ymlaen wrth ddechrau Blwyddyn 7. Fel hyn, gellir osgoi'r posibilrwydd y byddant yn mynd drwy gyfnod o ddadrithiad yn eu hysgol newydd am nad yw ond yn cynnig 'mwy o'r un peth' iddynt;

- dilyniant wrth ddysgu o ran cynnwys y pwnc mewn gwersi ac o ran methodoleg athrawon fel na chollir y cyffro o ddysgu;

- rhannu gwybodaeth yn well rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd fel bod gan athrawon uwchradd ddarlun clir a manwl o gryfderau pob disgybl ac o'r meysydd y mae angen eu datblygu. Os caiff yr wybodaeth hon ei rhannu ar bwynt digon cynnar, drwy gytundeb, yn nhymor yr haf ym Mlwyddyn 6, bydd athrawon uwchradd yn cael cyfle i barhau â llwyddiant a chynllunio i ddiwallu anghenion sydd wedi'u nodi. Drwy rannu gwybodaeth fel hyn, gellir osgoi gwastraffu amser ym Mlwyddyn 7 drwy gynnal profion pellach i gael gwybodaeth sydd eisoes yn bod;

- partneriaethau effeithiol rhwng ysgolion ac athrawon yn y ddau gyfnod. Mae partneriaethau o'r fath yn hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth, y broses o rannu arbenigedd ac arferion da, a'r posibilrwydd o drefnu prosiectau ar y cyd sy'n helpu disgyblion i weld eu haddysg fel continwwm parhaus;

- gwell asesu o ganlyniad i gyd-ddealltwriaeth o nodweddion cyflawniad a chynnydd ar ran yr holl athrawon cynradd ac uwchradd, yn enwedig y rhai sy'n addysgu disgyblion ar y pwynt cyswllt rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7;

- gwell trosglwyddo cymdeithasol fel na fydd disgyblion yn cael bod symud i ysgol uwchradd yn codi ofn arnynt gan eu bod wedi cael cymorth i ymgynefino â'r amgylchedd, y systemau, y disgyblion a'r athrawon yn eu hysgol newydd drwy ymweliadau a mathau eraill o gyfathrebu a threfniadau cynefino.

3.3 Yn ymarferol, mae'r broses drosglwyddo ar ei mwyaf effeithiol lle y ceir cysylltiadau proffesiynol cryf rhwng yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo, a lle y mae trosglwyddo'n destun trafod sy'n codi dro ar ôl tro yn y cyfarfodydd rheolaidd rhwng penaethiaid holl ysgolion y bartneriaeth. Mae sawl grŵp o'r fath wedi llunio datganiadau polisi cytûn.

Mae un bartneriaeth ysgolion wedi rhoi'r rhagymadrodd canlynol i'w pholisi trosglwyddo:

Ein nodau cytunedig yw:

- Hwyluso dilyniant a chynnydd addysgol, gan gyfeirio'n uniongyrchol at gynlluniau gwaith a strategaethau asesu
- Creu modd i ddisgyblion drosglwyddo'n effeithiol o'r naill gyfnod allweddol i'r llall
- Hybu trafodaeth rhwng cyfnodau allweddol ac felly hyrwyddo'r broses penderfynu a datblygu polisi
- Rhannu arbenigedd ac adnoddau
- Sicrhau holl fanteision HMS ar y cyd
- Datblygu strategaeth ar y cyd i gyfleu pwysigrwydd addysg i bob sector yn ein cymuned.

Mae'r gallu i gyflawni'r nodau uchod yn dibynnu yn y bôn ar y gallu i ddatblygu athroniaeth addysgol gyffredin lle na fydd yr un partner yn fwy neu'n llai pwysig na'r llall.

Un o'r hanfodion ar gyfer cyfathrebu effeithiol yw'r gyfres o gyfarfodydd clwstwr rheolaidd lle y cynrychiolir pob ysgol gan y pennaeth neu ei ddirprwy.

Gan ddilyn agenda gyffredin, rydym yn canfod anghenion:

- Yn y broses trosglwyddo
- Mewn meysydd penodol yn y cwricwlwm
- Mewn strategaethau dysgu ac addysgu
- Mewn materion sy'n ymwneud â'r ysgol gyfan
- O ran cysylltiadau â'r gymuned.

Sut y gallai ysgolion fynd ynghylch rheoli'r gwaith o lunio cynllun trosglwyddo

Cydgysylltydd trosglwyddo Uwchradd: **"Pan fyddwch yn rhoi beth rydych yn ei wneud ar ddu a gwyn, fe welwch ei fod yn eithaf sylweddol."**

3.4 Mae mwy nag un modd i greu cynllun trosglwyddo. Bydd yn rhaid wrth gydweithio rhwng cyrff llywodraethu a rheolwyr yr holl ysgolion sy'n ymwneud â llunio un cynllun trosglwyddo i ganfod y modd gorau i fodloni anghenion lleol a gofalu am eu hamgylchiadau eu hunain.

3.5 Mae sawl agwedd ar drefniadaeth y bydd angen eu hystyried gan glystyrau ysgolion sy'n cydweithio er mwyn llunio cynllun trosglwyddo ar y cyd:

- Rhaid wrth ymrwymiad parhaus ar ran yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo i gydweithio er mwyn datblygu a chyflwyno'r cwricwlwm mewn modd sy'n hybu dilyniant a chynnydd wrth ddysgu ymysg disgyblion wrth iddynt symud o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod rhaid i'r ysgol uwchradd arwain yn y broses hon, er y gallai fod yn fwy ymarferol neu gyfleus iddi fod felly.

- Mae angen penodi cydgysylltydd o blith uwch reolwyr yr ysgolion sy'n gysylltiedig i oruchwylio'r gwaith, trefnu cyfarfodydd a sicrhau bod y broses yn hwylus ac yn glir. Gallai'r cydgysylltydd aros yn ei swydd drwy gydol oes y cynllun trosglwyddo neu gellid rhannu'r cyfrifoldeb drwy gylchredeg y swydd bob blwyddyn ymysg uwch reolwyr yr ysgolion sy'n gysylltiedig.

- Mae angen sefydlu grŵp llywio a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr yr holl ysgolion sy'n gysylltiedig. Yn ymarferol, gallai fod yn grŵp, neu'n is-grŵp, o'r holl benaethiaid sydd eisoes yn cwrdd yn rheolaidd, a gallai gynnwys cynrychiolwyr y llywodraethwyr, y rhieni neu'r AALl.

- Os yw grŵp ysgolion y bartneriaeth eisoes yn cymedroli rhwng cyfnodau mewn clwstwr, rhaid cael cytundeb ar y modd y bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd â'r gwaith ar baratoi'r Cynllun Trosglwyddo ac yn cyfrannu ato.

- Bydd yn rhaid ystyried y goblygiadau o ran adnoddau mewn cysylltiad â chyllido a neilltuo amser staff i weithio ar faterion sy'n ymwneud â throsglwyddo. Efallai y gellid canfod cyfleoedd yn y trefniadau presennol ar gyfer cyfarfodydd clwstwr a diwrnodau hyfforddi ar y cyd i gynnal rhai cyfarfodydd ar drosglwyddo. Mewn llawer o ardaloedd, mae'r broses drosglwyddo eisoes wedi'i chynnwys fel eitem ar agenda cyfarfodydd presennol y grwpiau clwstwr.

- Rhaid canfod a chytuno ar y cymorth sydd ar gael gan yr AALl, ac unrhyw ffynonellau cyllido ychwanegol (er enghraifft, yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru neu'r Gronfa Ysgolion Gwell).

- Mae angen cytuno ar amserlen ar gyfer llunio'r cynllun, gan nodi pwy sy'n gwneud beth a pha bryd; gallai hefyd nodi pwy sydd i gynhyrchu'r cynllun neu ddatganiad ysgrifenedig, sut y mae i'w gyhoeddi a sut y bydd copïau'n cael eu darparu.

- Rhaid canfod dulliau o gasglu barn disgyblion a rhieni. Rhai dulliau posibl yw cyfweliadau, holiaduron, cyfarfodydd grwpiau ffocws, trafodaeth â chynrychiolwyr cynghorau ysgolion, a chynnwys rhieni mewn gweithgorau.

- Rhaid ystyried a threfnu ar gyfer goblygiadau i hyfforddiant mewn swydd. Gallai hynny olygu cynnal hyfforddiant ar y cyd ar gyfer athrawon Bl6 a Bl7, gan ganolbwyntio ar feysydd penodol fel llythrennedd yn y cwricwlwm drwyddo draw neu ar rannu dulliau addysgu. Mae nifer o AALlau eisoes wedi trefnu neu gynllunio hyfforddiant perthnasol.

- Efallai y bydd angen sefydlu gweithgorau eraill, er enghraifft, rhai i ddatblygu deunyddiau cwricwlwm, i nodi cynnydd ym maes TGCh o Bl6 i Bl7, i gydweithio ar gynllun gwaith Bl5 i Bl8 neu i ddarparu canllawiau ar weithdrefnau asesu.

- Gallai fod yn fuddiol enwebu llywodraethwr ym mhob ysgol i fod yn gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â throsglwyddo.

3.6 Mewn rhai achosion, mae'r AALl wedi chwarae rhan drwy gymell ysgolion i feddwl yn gliriach am eu strategaethau trosglwyddo.

Sefydlwyd grŵp llywio gan un AALl yn Ionawr 2004 i gael gwybod beth a oedd yn digwydd yn yr awdurdod lleol o ran dilyniant a chynnydd yn addysg plant, ac i argymell dulliau o rannu arferion da a gwella'r broses drosglwyddo. Pennwyd chwe maes blaenoriaethol a lluniwyd cynlluniau gweithredu ar gyfer pob maes. Mae'r holl bartneriaethau'n gweithio ar un neu ragor o'r meysydd hyn.

Trefnwyd cynhadledd ar Drosglwyddo gan AALl arall ar gyfer yr holl ysgolion yn yr awdurdod lleol, gyda chyflwyniadau am arferion da wrth gynllunio ar gyfer trosglwyddo, a chyfle i ysgolion sy'n bartneriaid gael trafod pwyntiau a godwyd yn y cyflwyniadau a phennu meysydd lle y gellid cydweithio.

Mewn AALl arall wedyn, gofynnwyd i'r holl grwpiau partneriaeth lunio cynlluniau gweithgareddau trosglwyddo ar gyfer 2006/07. Mae'r gweithgareddau hyn yn cwmpasu gwaith i ddatblygu unedau pontio trawsgwricwlaidd a rhai sy'n seiliedig ar bynciau, ymweliadau estynedig (hyd at bythefnos) gan ddisgyblion Bl6 â'r ysgol uwchradd sy'n bartner, cyfleoedd i athrawon yn y ddau gyfnod gael arsylwi ar wersi yn y cyfnod arall, neu eu cyflwyno, newidiadau i gwricwlwm Bl7, yn ogystal â gweithgareddau hyfforddiant mewn swydd.

Pa faterion y bydd yn rhaid ymdrin â hwy mewn cynllun?

3.7 Cyn gallu llunio cynllun trosglwyddo ffurfiol, bydd yn rhaid i'r ysgolion cysylltiedig benderfynu ar amryw o faterion ac ar y dull gorau o ymdrin â hwy. Mewn llawer achos, bydd y broses hon wedi'i hen sefydlu eisoes a bydd gan ysgolion brofiad helaeth y gallant wneud defnydd ohono; ni fydd y gwaith o ddarparu cynllun trosglwyddo i fodloni gofynion statudol yn galw am lawer o ymdrech ychwanegol, ond yn hytrach am gyfuno ac ymestyn yr hyn sydd ar gael eisoes.

3.8 Yn achos y clystyrau ysgolion hynny lle nad yw gwaith ar drosglwyddo wedi mynd mor bell, bydd angen gwaith datblygu mwy penodol, ond dylai fod yn bosibl ei gyfuno â'r arferion presennol, er hynny.

3.9 Y prif fater sy'n galw am sylw yw'r angen i ganfod anghenion penodol mewn ysgolion neilltuol ac yn y bartneriaeth o ysgolion y bydd y cynllun yn berthnasol iddi. Drwy ddadansoddi'r arferion presennol yn wrthrychol, gwelir cryfderau a gwendidau posibl a dangosir ym mha feysydd y bydd angen gwneud penderfyniadau a rhoi blaenoriaeth i weithredu. Rhaid i'r cynllun fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer newid mewn amgylchiadau ac anghenion lleol. Ceir rhestr wirio lawn ar gyfer hunanadolygu yn Atodiad 2 a gallai hon fod yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer trafodaethau'r ysgolion.

3.10 Rhaid i'r holl gynlluniau trosglwyddo gynnwys y pum maes craidd sydd wedi'u nodi ym Mharagraff 2.18. Cyfrifoldeb y cyrff llywodraethu yw pennu blaenoriaethau, targedau ar gyfer gweithredu a chyflymder y datblygu, er ei bod yn debygol, yn ymarferol, y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud gan uwch reolwyr.

> Pennaeth ysgol gynradd/cydgysylltydd trosglwyddo clwstwr ysgolion: "Er gwaethaf y gwaith caled a chyd-drefnus mewn clwstwr o ysgolion cynradd, dim ond pan fydd pennaeth ac uwch dîm rheoli'r ysgol uwchradd gysylltiedig wedi llwyr ymrwymo i wella'r broses y bydd gwaith trosglwyddo gwirioneddol effeithiol yn gallu digwydd."

3.11 Mae rhai cwestiynau a allai helpu ysgolion i ymdrin â'r pum maes craidd wedi'u rhestru fel y bo'n briodol, er nad oes disgwyl y bydd pob un o'r cwestiynau hyn yn cael eu hystyried mewn cynlluniau.

Rheoli a chydgysylltu'r broses drosglwyddo

3.12 Gallai hyn fod yn ddatganiad cryno am y materion trefniadol sydd wedi'u rhestru yn yr adran flaenorol nad ydynt yn ffitio'n naturiol i unrhyw un o'r adrannau canlynol. Gallai gynnwys, er enghraifft, disgrifiad o gyfrifoldebau'r cydgysylltydd, ymgynghori â rhieni a disgyblion, amlder cyfarfodydd i drafod agweddau ar y cynllun, cysylltiadau â strategaethau trosglwyddo'r AALl neu gyfeiriadau at gynlluniau datblygu ysgolion, neu ddisgrifiad byr o'r arferion presennol a sut y maent i gael eu hymestyn. Gallai restru nifer o faterion y mae'n rhaid ymdrin â hwy dros gyfnod

o ychydig flynyddoedd, a nodi blaenoriaethau ac amserlen ar eu cyfer. Nid oes disgwyl y bydd cynllun trosglwyddo yn ymdrin â'r holl wendidau a ganfuwyd yn fanwl ar yr un pryd; bydd cyflymder y datblygiadau mewn gwahanol agweddau ar y broses drosglwyddo yn amrywio.

3.13 Os yw ysgol uwchradd yn datblygu cysylltiadau ynghylch agweddau penodol ar y broses drosglwyddo gydag ysgolion cynradd heblaw'r rhai 'swyddogol' sy'n ei bwydo, gallai'r adran hon gynnwys disgrifiad byr o'r datblygiadau hynny, oni bai fod cyfeiriad atynt mewn man arall.

Dilyniant y cwricwlwm

Pennaeth ysgol uwchradd: **"Nid ydym am wastraffu amser plant drwy ailadrodd gwaith y maent wedi'i wneud yn barod."**

- Beth yw'r angen mwyaf am newid?
- A fydd y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm yn canolbwyntio ar bynciau ynteu sgiliau?
- Os bydd yn canolbwyntio ar bynciau, a fydd yn ymwneud ag un neu ragor o'r pynciau craidd yn unig, neu gymysgedd o bynciau craidd a sylfaen?
- Beth am ddilyniant ieithyddol yn y Gymraeg? A oes trefniadau priodol yn eu lle er mwyn i ddisgyblion sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn yr ysgol gynradd barhau i wneud hynny? A oes trefniadau priodol yn eu lle er mwyn i ddisgyblion a addysgwyd yn rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol gynradd barhau i wneud hynny yn yr ysgol uwchradd?
- Os bydd yn canolbwyntio ar sgiliau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd, defnyddio TGCh, sgiliau meddwl), sawl pwnc y dylid ei gynnwys?
- A fyddai'n briodol newid pwyslais gan ddilyn rhaglen dreigl dros nifer o flynyddoedd?
- Pwy a fydd yn arwain ar y gwaith hwn, ac a oes angen gweithgor o athrawon i ddatblygu adnoddau neu ganllawiau?
- Pa hyfforddiant mewn swydd y mae ei angen i hybu'r datblygiadau hyn?

Ar ôl cael arian o'r cynllun Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol cafwyd amryw o weithgareddau trosglwyddo sydd wedi'u cynllunio'n ofalus, gan gynnwys gwaith gan arbenigwyr Addysg Gorfforol mewn ysgolion uwchradd gydag athrawon cynradd i'w helpu i ddatblygu eu harbenigedd eu hunain.

Mewn un ardal, trefnwyd diwrnod chwaraeon gan athrawon Addysg Gorfforol a myfyrwyr TGAU a Safon Uwch Addysg Gorfforol yn yr ysgol uwchradd ar gyfer yr holl ysgolion cynradd sy'n ei bwydo, lle'r oedd pob disgybl ysgol gynradd wedi cymryd rhan.

Mae llawer o ysgolion eisoes wedi meithrin cysylltiadau cwricwlaidd cryf yn amryw o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at greu cynlluniau gwaith ar y cyd ar draws y cyfnodau, neu waith i ddatblygu unedau pontio fel bod gwaith yn cael ei ddechrau yn Bl6 a'i gwblhau yn Bl7. Ceir sawl enghraifft ledled Cymru o drefniadau i ryddhau arbenigwyr pwnc yn yr ysgol uwchradd oddi wrth rywfaint o'u gwaith addysgu er mwyn cyflwyno ychydig o wersi yn eu maes arbenigol yn yr ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol uwchradd. Mae llawer o ysgolion uwchradd hefyd yn cynnig cyfleoedd i blant Bl6 gael gwneud gwaith mewn pynciau sy'n galw am ddefnyddio cyfarpar ymarferol sydd heb fod ar gael yn rhwydd mewn ysgolion cynradd, fel cerddoriaeth, celf, gwyddoniaeth neu dechnoleg. Bu dau aelod o staff ysgol gynradd yn gweithio ar secondiad tymor byr gyda'r adran Gymraeg mewn un ysgol uwchradd, gan lunio llyfryn ar Gymraeg cywir a rannwyd wedyn gyda holl ysgolion eraill y bartneriaeth.

Dilyniant wrth ddysgu ac addysgu

- A oes dulliau dysgu ac addysgu cyffredin yn rhai neu'r cwbl o'r ysgolion cysylltiedig, a sut y gellid datblygu'r rhain ymhellach?
- Beth yw'r angen mwyaf am newid?
- Pa hyfforddiant mewn swydd y mae ei angen, ac ar gyfer pwy, i hybu'r datblygiadau hyn?
- Sut y gellir cynnig cyfleoedd i athrawon cynradd ac uwchradd gael rhannu profiadau ac arbenigedd drwy arsylwi ar ystafelloedd dosbarth a dulliau addysgu ei gilydd, er enghraifft, neu gyfarfod i drafod neu baratoi cynlluniau gwaith ar y cyd neu unedau pontio?
- Sut y gellir hyrwyddo dull cyson o ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd yn yr ysgolion sy'n gysylltiedig?
- A yw'r holl ysgolion sy'n gysylltiedig yn meddu ar yr adnoddau sy'n angenrheidiol? Os nad ydynt, a oes modd rhannu'r adnoddau presennol, er enghraifft, drwy ddefnyddio adnoddau'r ysgol uwchradd gyda disgyblion Blwyddyn 6?

Athro mathemateg mewn ysgol uwchradd: **"Rwyf wedi newid fy null o addysgu ym Mlwyddyn 7 ar ôl gweld plant Blwyddyn 6 yn gwneud mathemateg."**

3.14 Mae nifer o bartneriaethau ysgolion yn trefnu diwrnodau hyfforddi ar y cyd yn rheolaidd ar gyfer yr holl staff, gan ganolbwyntio'n aml ar faterion sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu fel asesu ar gyfer dysgu, datblygu sgiliau meddwl disgyblion, neu nodi'r arddulliau dysgu sydd orau gan ddisgyblion.

3.15 Mae nifer o ysgolion yn bwriadu newid y cwricwlwm yn Bl7, neu wedi gwneud hynny eisoes, fel y bydd disgyblion yn cwrdd â llai o athrawon. Mae ysgolion sydd wedi cyflwyno'r newid hwn wedi gweld manteision yn barod ar ffurf gwell ymddygiad, agweddau at waith a safonau cyflawniad ymysg disgyblion.

Gweler Astudiaeth Achos 7 yn **Newidiadau mewn Addysgu a Dysgu a hyrwyddir gan y Rhaglen Anelu at Ragoriaeth 2005-2006** (Estyn) am enghraifft o ysgol a gyflwynodd drefniadau o'r fath ar gyfer addysgu ym Mlwyddyn 7 o fis Medi 2003.

Ysgol uwchradd sy'n bwriadu newid y cwricwlwm Bl7 o fis Medi 2006:

Mae athrawon Saesneg a'r dyniaethau wedi gwirfoddoli i fod yn diwtoriaid dosbarth ar gyfer Bl7, a byddant yn addysgu eu grŵp dosbarth mewn Saesneg, y dyniaethau, sgiliau bywyd a TGCh. Bydd arweinydd y tîm bugeiliol yn rheoli ac yn monitro'r prosiect ac yn addysgu cerddoriaeth a Chymraeg i bob un o'r grwpiau. Mae ystafelloedd penodol wedi'u dynodi fel ystafelloedd dosbarth a cheir adnoddau ychwanegol, gan gynnwys cyfarpar TGCh a deunyddiau arddangos. Bydd y tîm athrawon yn derbyn hyfforddiant perthnasol gan gynnwys addysgu disgyblion i feddwl yn feirniadol, yn arsylwi ar ddysgu ac addysgu yn yr ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol uwchradd, ac yn cydweithio'n agos â staff cynradd i gynllunio'r cwricwlwm, ac yn dyfeisio strategaethau dysgu ac asesu. Bydd athrawon cynradd yn gwerthuso cynnydd eu cyn-ddisgyblion sawl gwaith yn ystod y flwyddyn.

Dilyniant wrth asesu, monitro a dilyn cynnydd disgyblion

- Pa gyfleoedd a roddir i athrawon y ddau gyfnod ddod at ei gilydd i drafod ac asesu gwaith plant fel y ceir cyd-ddealltwriaeth o safonau a dilyniant?
- Faint o arferion cyffredin a geir yn strategaethau asesu'r ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo?
- Pa wybodaeth am gyflawniad cyffredinol disgyblion sy'n cael ei rhannu ar hyn o bryd ar draws y clwstwr ysgolion?
- Pa wybodaeth am gyflawniad disgyblion unigol sy'n mynd o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ar adeg trosglwyddo'r disgyblion?
- Sut y gellir defnyddio data yn fwy effeithiol yn yr ysgol uwchradd i hwyluso'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm, ac i bennu targedau ar gyfer pynciau, adrannau, dosbarthiadau a disgyblion unigol?
- Beth sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd o fewn yr AALl mewn cysylltiad ag asesu, monitro a dilyn cynnydd disgyblion (er enghraifft, gweithgorau ar draws yr AALl yn cynhyrchu unedau pontio neu bortffolios pwnc o waith disgyblion, dadansoddi data am gyflawniad disgyblion ar draws yr AALl a darparu crynodeb o ddata neu ddata ar gyfer unigolion i'r holl ysgolion)?
- Pa gymorth ychwanegol y mae ei angen (hyfforddiant mewn swydd, adnoddau, canllawiau AALl a data) i hyrwyddo cysondeb wrth asesu, monitro a dilyn cynnydd disgyblion?

Estyn: **Newidiadau mewn addysgu a dysgu a hyrwyddir gan y rhaglen Anelu at Ragoriaeth 2005-2006**.

Mewn un grŵp o ysgolion lle y mae'r broses o hunanasesu a phennu targedau wedi hen ymsefydlu yn yr ysgolion cynradd ac yn parhau yn yr ysgol uwchradd, bydd disgyblion yn gosod targedau iddynt eu hunain ar ddiwedd Bl6 a bydd y rhain yn cael eu hadolygu gyda'u tiwtoriaid Bl7 ar ddiwedd eu tymor cyntaf.

3.16 Mae sawl grŵp o ysgolion wedi bod yn datblygu portffolios o waith sydd wedi'i gymedroli ar draws y cwricwlwm. Mae clystyrau eraill yn cymryd rhan ym mhrosiect Llywodraeth Cynulliad Cymru - ACCAC cyn hynny - Datblygu Asesiadau Athrawon.

Mae rhai AALlau yn darparu dadansoddiad defnyddiol i'r holl ysgolion o ddata sy'n ymwneud â pherfformiad disgyblion Bl6 pan fyddant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd; mae hyn yn helpu ysgolion i ddilyn perfformiad disgyblion yn unigol ac mewn grwpiau, ac i ganfod disgyblion y mae'n ymddangos eu bod yn tanberfformio.

Adolygu a monitro'r cynllun

- Pa weithdrefnau y mae eu hangen i ganfod a fydd angen adolygu'r cynllun cyn pen tair blynedd (er enghraifft, os yw ysgol gynradd newydd yn ymuno â'r bartneriaeth)?
- A fydd angen adolygu'r cynllun bob blwyddyn er mwyn penderfynu a ddylid newid y blaenoriaethau ac, os bydd, pwy a ddylai wneud hynny a pha bryd? Gallai hyn fod yn rhan o drafodaeth flynyddol gyda'r AALl. Efallai y bydd grŵp o ysgolion yn dymuno canolbwyntio'n fwy penodol ar drefniadau ar gyfer disgyblion Bl6 ym mlwyddyn gyntaf y Cynllun Trosglwyddo cyntaf, ac adolygu a diwygio'r cynllun i ystyried Bl7 yn fwy manwl wrth baratoi ar gyfer yr ail flwyddyn.
- Pa strategaethau y mae eu hangen i fonitro effaith y cynllun o ran dilyniant wrth ddysgu, addysgu ac asesu (er enghraifft, cyfweld disgyblion Bl6 bob blwyddyn, ymgynghori ag athrawon Bl6 a Bl7) a phwy a fydd yn gyfrifol am fonitro hynny?
- Pa wybodaeth y mae ei hangen i gyfrannu at fonitro'r effaith ar safonau?
- Sut y penderfynir ynghylch effeithiolrwydd y dull o reoli'r cynllun?

3.17 Mae strategaethau ar waith gan sawl ysgol i fonitro a gwerthuso effaith cynlluniau penodol ar gyfer trosglwyddo.

Mewn un clwstwr o ysgolion, mae athrawon Bl6 o bob un o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo'n dilyn perfformiad eu cyn-ddisgyblion Bl6 yn Bl7 sawl gwaith y flwyddyn, a chafwyd bod y strategaeth hon yn fodd effeithiol i ganfod disgyblion sy'n tanberfformio.

3.18 Os yw cyrff llywodraethu'n dymuno hynny, gellir cynnwys meysydd dewisol ychwanegol mewn Cynlluniau Trosglwyddo. Tri maes o'r fath yw cysylltiadau bugeiliol, rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn ychwanegol at y gofynion statudol, a rhoi gwybod am anghenion dysgu disgyblion unigol. Bydd llawer o'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r adrannau hynny, yn ogystal â'r adran graidd sy'n ymwneud ag asesu a dilyn cynnydd disgyblion, i'w chael yn y Ffeil Drosglwyddo Gyffredin statudol. Mae hyn yn ddull electronig o drosglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion unigol pan fyddant yn mynd i ysgol arall.

3.19 Mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004 yn gosod gofynion ar ysgolion mewn cysylltiad â chadw a chyfnewid gwybodaeth am ddisgyblion o fis Mai 2004. Mae'r rheoliadau hyn yn mynnu bod ysgolion yn creu ffeil electronig o wybodaeth am berfformiad a manylion personol disgyblion y gellir ei hanfon yn electronig i ysgol arall pan fydd disgybl yn trosglwyddo. Mae mwy o wybodaeth am y Ffeil Drosglwyddo Gyffredin ar gael yn http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/?lang=cy. Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol wedi'i nodi hefyd yn Atodiad 2 i ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Drosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd, Tachwedd 2004.

Cysylltiadau bugeiliol

- Pa mor effeithiol a chyffredinol yw'r cysylltiadau bugeiliol presennol?
- Sut y gellir gwella'r trefniadau cynefino presennol i hwyluso'r broses o drosglwyddo disgyblion o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo i Flwyddyn 7?
- Sut y gellir sefydlu neu wella trefniadau cynefino ar gyfer disgyblion heblaw'r rhai o'r ysgolion sy'n bwydo'r ysgol uwchradd?
- Sut y gall disgyblion yn yr ysgol uwchradd gyfrannu at rai o'r cysylltiadau bugeiliol â disgyblion Bl6?
- Beth yw barn rhieni a disgyblion am y cysylltiadau bugeiliol presennol a'r rhai arfaethedig?

Rhiant: **"Rwy'n falch iawn bod fy merch wedi symud i ysgol uwchradd lle mae'r broses drosglwyddo wedi hen ymsefydlu. Ni chafodd unrhyw broblem wrth ailafael yn ei gwaith ym Mlwyddyn 7 - yn wahanol i rai o'i ffrindiau a symudodd i ysgolion nad oeddent yn gwybod fawr ddim amdanynt a lle'r oedd yr athrawon a'r gweithdrefnau'n gwbl ddieithr iddynt."**

Rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn ychwanegol at y gofynion statudol

- Pa wybodaeth y mae'n briodol ei rhannu am ymddygiad disgyblion?
- A ddylid rhannu gwybodaeth am ddiddordebau a chyflawniadau disgyblion y tu allan i'r ysgol?
- A oes unrhyw wybodaeth arall y byddai'n briodol ei rhannu (er enghraifft, brodyr a chwiorydd yn yr ysgol, cefndir ethnig, plant sy'n derbyn gofal, gofalwyr ifanc, amgylchiadau anodd yn y cartref)?
- Beth yw'r dull gorau o drosglwyddo gwybodaeth o'r fath?

Estyn: **Newidiadau mewn addysgu a dysgu a hyrwyddir gan y rhaglen Anelu at Ragoriaeth 2005-2006:**

Mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd wedi taro ar ddulliau o rannu gwybodaeth am ddisgyblion Blwyddyn 7 newydd. Mae un grŵp o ysgolion wedi dyfeisio dalen grynodeb effeithiol iawn, sydd â fformat cyffredin, ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth yn electronig am ddisgyblion Blwyddyn 6 i'r holl athrawon Blwyddyn 7. Mae'n cynnwys crynodeb o ddata am bresenoldeb, ymdrech, ymddygiad, sgorau llythrennedd a rhifedd, lefelau yn asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol a doniau.

Athro cydgysylltu uwchradd: "Mae athrawon cynradd yn adnabod eu disgyblion yn dda, ac rydym yn sylweddoli y gallwn ddysgu llawer ganddynt; gallant roi dealltwriaeth gywir a chynhwysfawr o'r disgyblion o safbwynt bugeiliol ac academaidd."

Rhoi gwybod am anghenion dysgu disgyblion unigol

- Pa wybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo ar hyn o bryd am anghenion dysgu disgyblion unigol, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion addysgol ychwanegol, disgyblion sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith ychwanegol a disgyblion mwy galluog?
- Pa mor effeithiol y mae gwybodaeth o'r fath yn cael ei defnyddio i gynllunio ar gyfer anghenion dysgu'r disgyblion hynny?

Bydd pennaeth Bl7 mewn un ysgol uwchradd yn ymweld â'r holl ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol i dderbyn a thrafod cipluniau o bob un o'r disgyblion Bl6. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am iechyd y disgyblion a gwybodaeth academaidd a chymdeithasol, yn ogystal â manylion am anghenion dysgu penodol. Fe'u defnyddir wedyn i benderfynu ar strategaethau addysgu ac i bennu targedau, a chânt eu diweddaru ddwywaith y flwyddyn.

3.20 Os yw'n briodol, gallai'r Cynllun Trosglwyddo gynnwys manylion ar wahân hefyd am:

- ddarpariaeth ar gyfer un neu ragor o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo sy'n wahanol i'r ddarpariaeth ar gyfer yr ysgolion cynradd eraill sy'n bwydo
- unrhyw agweddau eraill sy'n ymwneud yn benodol â blaenoriaethau/amgylchiadau ysgolion neu grwpiau o ysgolion penodol.

3.21 Gallai hynny gynnwys, er enghraifft, manylion cryno am y modd y mae ysgol uwchradd yn cydgysylltu ag ysgolion cynradd y mae rhai disgyblion yn trosglwyddo ohonynt, ond nid pob blwyddyn o reidrwydd, neu ag ysgolion cynradd y tu allan i'r AALl sy'n bwydo'r ysgol uwchradd yn rheolaidd.

ADRAN 4. CYMORTH A CHANLLAWIAU

Deunyddiau canllaw

4.1 Gall ymarferwyr droi at amryw o ddeunyddiau wrth ddatblygu strategaethau a chynlluniau i wella'r broses trosglwyddo. Yn benodol, mae'r cyhoeddiadau yn y gyfres Anelu at Ragoriaeth a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn, ACCAC a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol wedi tynnu sylw at lawer o'r manteision y mae ysgolion yn eu cael drwy gynllunio ar gyfer trosglwyddo. Y cyhoeddiadau hynny yw:

- **Symud Ymlaen … Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 (Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2004)**
- **Symud Ymlaen … Gwella Dysgu, Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 (Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru / ACCAC, 2004) (cyhoeddiad ar wefan Estyn)**
- **Y pecyn fideo dwyieithog Codi Safonau mewn Llythrennedd a Rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 3 (BBC Cymru/Estyn/ Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2002)**
- **Y pecyn fideo dwyieithog Codi Safonau mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yng Nghyfnod Allweddol 3 (BBC Cymru/Estyn / Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2004)**
- **Y pecyn fideo dwyieithog Codi Safonau: Trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 (BBC Cymru/Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2004)**
- **Pontio'r Bwlch - Datblygu a defnyddio unedau pontio i gefnogi trosglwyddo effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 (ACCAC/Llywodraeth Cynulliad Cymru/Estyn, 2004)**
- **Newidiadau mewn addysgu a dysgu a hyrwyddir gan y rhaglen Anelu at Ragoriaeth 2005-2006 (Estyn, 2006) (cyhoeddiad ar wefan Estyn), sy'n cynnwys pennod ar Drosglwyddo sy'n disgrifio rhai o'r arferion presennol.**
- **Arolwg o'r Gymraeg fel Ail Iaith yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 a'r Cyfnod Pontio (Estyn 2004).**

4.2 Gellir cael y rhan fwyaf o'r deunyddiau hyn yn y gwefannau perthnasol www.estyn.gov.uk, www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Cronfa Ysgolion Gwell a HMS

4.3 Mae cyllid crynswth o £9.5 miliwn wedi'i glustnodi ar gyfer Trosglwyddo Effeithiol yn y Gronfa Ysgolion Gwell ar gyfer 2006-07. Gellir defnyddio'r cyllid hwn i wella'r dull o gyflwyno'r cwricwlwm fel bod dilyniant a chynnydd ar gyfer disgyblion sy'n symud i Gyfnod Allweddol 1 a rhwng y cyfnodau allweddol. Gellir defnyddio'r cyllid hefyd i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu Cynllun Trosglwyddo a chaiff awdurdodau lleol ac ysgolion wneud defnydd ohono i dalu costau datblygiad staff.

4.4 Er mwyn ategu'r ddarpariaeth yn y Gronfa Ysgolion Gwell, mae dau ddiwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn wedi'u darparu ym mlynyddoedd ysgol 2006-07 a 2007-08 yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006. Gellir defnyddio'r ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer hyfforddiant sy'n ymwneud â pharatoi a gweithredu cynlluniau sydd â'r amcan o gynorthwyo disgyblion sy'n trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Grant Trosglwyddo Cyfnodau Allweddol 2 a 3 Llywodraeth Cynulliad Cymru

4.5 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cyllid ychwanegol i awdurdodau addysg lleol yn 2006-07 ac yn y ddwy flwyddyn ariannol ddilynol i hybu'r gwaith o ddatblygu amryw o brosiectau enghreifftiol sy'n canolbwyntio ar agweddau allweddol ar gynllunio ar gyfer trosglwyddo. Gellir defnyddio'r cyllid i ledaenu arferion da hefyd.

4.6 Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ar 28 Chwefror sy'n nodi cynigion ar ddefnyddio'r cyllid, sef £1 filiwn yn 2006-07, £2 filiwn yn 2007-08 a £2 filiwn yn 2008-09. Cyhoeddir canllawiau ar wahân ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol

4.7 Gellir cael cymorth i ymdrin ag agweddau penodol ar waith i wella'r broses drosglwyddo hefyd drwy ddefnyddio adnoddau sydd ar gael gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Er enghraifft, caiff athrawon ymgeisio am gyllid oddi wrth Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru dan nifer o gategorïau prosiect gan gynnwys Bwrsariaeth Datblygiad Proffesiynol, Ysgoloriaeth Ymchwil Athrawon, Rhwydwaith Datblygiad Proffesiynol ac, o Ebrill 2006, Bwrsari Grŵp. Am fwy o wybodaeth, gweler www.gtcw.org.uk.

4.8 Fel rhan o'r Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru, mae Grantiau Ymyrraeth Strategol wedi'u dyrannu i awdurdodau addysg lleol i hybu cynlluniau mewn ysgolion i gryfhau eu strategaethau ar gyfer codi safonau llythrennedd a rhifedd. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn www.basic-skills-wales.org.

Atodiad 1

Nid oes fformat penodol ar gyfer Cynllun Trosglwyddo. Fodd bynnag, efallai y bydd ysgolion yn dymuno cyfeirio at y canllawiau isod un ai wrth lunio Cynllun Trosglwyddo neu wrth ddatblygu Cynllun Trosglwyddo sy'n bod eisoes er mwyn bodloni'r gofynion a nodwyd yng nghanllawiau Llywodraeth y Cynulliad.

Mae'r canllawiau'n ymdrin â thri maes:

- Crynodeb o'r hyn y mae angen ei gynnwys mewn Cynllun Trosglwyddo
- Templed y gallai ysgolion ddymuno ei ddefnyddio i lunio Cynllun Trosglwyddo. Mae'r templed yn nodi fformat posibl ar gyfer Cynllun Trosglwyddo ac, ar gyfer pob adran yn y cynllun, mae'n crynhoi elfennau allweddol y cyngor sydd wedi'i roi yn adran 3 er mwyn helpu ysgolion i bennu blaenoriaethau a'r manylion sydd i'w cynnwys yn y Cynllun Trosglwyddo
- Cynllun prosiect enghreifftiol y gallai ysgolion ei ddefnyddio i gytuno ar y manylion ar gyfer delio â meysydd y cytunwyd bod angen eu gwella - ee nodau ac amcanion, rolau a chyfrifoldebau, amserlenni ac adnoddau.

Y gofynion ar gyfer Cynllun Trosglwyddo

Bydd Cynllun Trosglwyddo yn fframwaith ar gyfer ffurfioli'r ddarpariaeth bresennol a nodi cynlluniau ar gyfer gwella, yn unol â phenderfyniadau cyrff llywodraethu. Mae'r rhestr wirio ganlynol yn dangos y gofynion statudol.

Rhaid i Gynllun Trosglwyddo:

- bod wedi'i gwblhau erbyn Medi 2007;
- bod yn gytundeb ar y cyd rhwng ysgol uwchradd a enwyd a phob un o'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo;
- cynnwys disgrifiad byr o bwrpas y Cynllun Trosglwyddo;
- nodi enwau'r holl ysgolion sy'n gysylltiedig;
- nodi'r garfan gyntaf o ddisgyblion y mae'n berthnasol iddi;
- nodi'r dyddiad y cafodd ei gyhoeddi;
- cael ei adolygu bob tair blynedd, neu'n amlach os oes angen;
- bod ar gael gan y cyrff llywodraethu yn yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo i'w archwilio;

- cael ei ddarparu i'r AALl(au) sy'n cynnal yr ysgolion;
- cynnwys y 5 maes craidd canlynol:
  - cynigion cyffredinol ar gyfer rheoli a chydgysylltu'r broses o drosglwyddo disgyblion o'r ysgolion cynradd i'r ysgol uwchradd y maent yn ei bwydo
  - disgrifiad o'r modd y sicrheir dilyniant o ran cynllunio'r cwricwlwm wrth drosglwyddo o ysgolion cynradd y bartneriaeth i'r ysgol uwchradd
  - disgrifiad o'r modd y sicrheir dilyniant o ran dysgu ac addysgu yn y cyfnod trosglwyddo
  - disgrifiad o'r modd y sicrheir dilyniant wrth asesu, monitro a dilyn cynnydd disgyblion yn y cyfnod trosglwyddo
  - y trefniadau ar gyfer adolygu a monitro'r cynllun er mwyn asesu ei effaith ar y safonau y mae disgyblion a dderbynnir i'r ysgol uwchradd yn eu cyrraedd, ac ystyriaeth o'r modd y gellid rheoli'r broses drosglwyddo'n well.

Gallai Cynllun Trosglwyddo gynnwys meysydd dewisol hefyd fel:

- disgrifiad o'r cysylltiadau bugeiliol ar gyfer bodloni anghenion personol a chymdeithasol y disgyblion yn y cyfnod trosglwyddo
- rhannu gwybodaeth am gyflawniadau a chyrhaeddiad disgyblion, eu presenoldeb a'u hymddygiad, sy'n ategu'r gofynion statudol presennol a fodlonir drwy'r System Drosglwyddo Gyffredin
- gwybodaeth a threfniadau i roi gwybod am anghenion dysgu disgyblion unigol
- darpariaeth ar gyfer un neu ragor o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol uwchradd sy'n wahanol i'r ddarpariaeth ar gyfer yr ysgol arall/ysgolion eraill sy'n ei bwydo
- unrhyw agweddau eraill sy'n ymwneud yn benodol â blaenoriaethau/amgylchiadau ysgolion neu grwpiau ysgolion penodol.

Templed Cynllun Trosglwyddo

Nid oes fformat penodol ar gyfer Cynllun Trosglwyddo. Cynigir y templed isod fel enghraifft o sut y gellid llunio Cynllun Trosglwyddo. Yn ogystal â hynny, ar gyfer pob adran yn y cynllun, mae'n crynhoi elfennau allweddol y cyngor a roddwyd yn adran 3 i helpu ysgolion i bennu blaenoriaethau a'r manylion sydd i'w cynnwys yn y Cynllun Trosglwyddo.

TEMPLED CYNLLUN TROSGLWYDDO

Defnyddiwch yr adran hon i restru'r ysgolion sy'n gysylltiedig. Er enghraifft:

Mae'r Cynllun Trosglwyddo hwn yn gytundeb ar y cyd rhwng yr ysgolion canlynol

Enw'r ysgol_____

Enw'r ysgol_____

Enw'r ysgol_____

Enw'r ysgol_____

Enw'r ysgol_____

PWRPAS

Nodwch beth fydd y Cynllun yn ceisio'i wneud. Er enghraifft, mae un awdurdod addysg lleol wedi gweithio gydag ysgolion i ddatblygu'r templed canlynol.

Ein nodau cytûn yw:

- Hyrwyddo dilyniant addysg rhwng y cyfnodau allweddol
- Hyrwyddo a hybu gwaith ar draws cyfnodau
- Meithrin mwy o ymwybyddiaeth ymysg staff o'r cyfnod arall, yn enwedig yr arferion a'r fethodoleg a geir ynddi yn ogystal â'r profiad a gaiff disgyblion
- Paratoi disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer y profiad o drosglwyddo
- Pennu cymorth penodol a'i dargedu ar y disgyblion hynny a ystyrir yn rhai sy'n agored i niwed
- Sicrhau bod data ar gyfer trosglwyddo disgyblion wedi'u darparu a'u defnyddio'n briodol
- Sicrhau bod rhieni/gofalwyr/teuluoedd yn cael eu hysbysu'n llawn am y broses drosglwyddo

Rhoddir enghraifft bellach yn y canllawiau ym mharagraff 3.3.

Ein nodau cytunedig yw:

- Creu modd i ddisgyblion drosglwyddo'n effeithiol o'r naill gyfnod allweddol i'r llall
- Hybu trafodaeth rhwng y cyfnodau allweddol ac felly hyrwyddo'r broses benderfynu a datblygu polisi
- Rhannu arbenigedd ac adnoddau
- Sicrhau holl fanteision HMS ar y cyd
- Datblygu strategaeth ar y cyd i gyfleu pwysigrwydd addysg i bob sector yn ein cymuned.

Mae'r gallu i gyflawni'r nodau uchod yn dibynnu yn y bôn ar y gallu i ddatblygu athroniaeth addysgol gyffredin lle na fydd yr un partner yn fwy neu'n llai pwysig na'r llall.

AMSERLEN

Nodwch yn fyr y manylion am gyfnod y cynllun. Er enghraifft:

Mae'r Cynllun yn nodi sut y byddwn yn cydweithio i gyflawni'r nodau uchod. Mae'n rhoi crynodeb o'r nodau a'r amcanion y mae ysgolion y bartneriaeth wedi cytuno arnynt ar gyfer y cyfnod o fis Medi 2007 i fis Gorffennaf 2010 ac mae'n rhoi manylion y gwaith sydd i'w wneud yn 2007-08.

Bydd ysgolion y bartneriaeth yn adolygu ac yn cytuno ar y cynnydd a wnaed a'r camau nesaf sydd i'w cymryd bob blwyddyn gan gwblhau'r adolygiad cyntaf erbyn 30 Medi 2008. Yn yr un modd ag a wnaed wrth lunio'r cynllun hwn, byddwn yn ceisio barn rhieni, gofalwyr a disgyblion am y dull gweithredu. Byddwn hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'n cymheiriaid yn yr awdurdod addysg lleol.

CYNNWYS

Nodwch sut y byddwch yn delio â'r gofynion craidd. Penderfynir yn lleol ar faterion ychwanegol sydd i'w cynnwys ar ben y gofynion craidd. Er enghraifft, gallech benderfynu defnyddio'r fformat sydd wedi'i nodi isod.

Mae'r cynllun yn nodi'r camau a gymerir yn unol â'r gofynion craidd sydd wedi'u nodi mewn canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru:

1. Rheoli a chydgysylltu'r broses drosglwyddo
2. Cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd
3. Sicrhau parhad mewn dulliau addysgu a dysgu
4. Sicrhau cysondeb wrth asesu a monitro a dilyn cynnydd disgyblion drwy ei gymharu â'r cyrhaeddiad blaenorol
5. Gwerthuso effaith y polisi a'r cynlluniau gwella ar safonau

Yn ogystal â hynny, mae'r cynllun yn nodi sut y byddwn yn cydweithio i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer trosglwyddo yn y meysydd canlynol:

6. Cysylltiadau bugeiliol i fodloni anghenion personol a chymdeithasol y disgyblion
7. Rhannu gwybodaeth am gyflawniadau a chyrhaeddiad disgyblion
8. Rhoi gwybod am anghenion dysgu disgyblion unigol.

Ym mhob achos, mae'r cynllun yn nodi gwaith cyfredol a pharhaus. Os nodir meysydd i'w gwella, byddwn yn cytuno ar flaenoriaethau ac yn gweithio arnynt gyda'n gilydd yn ystod cyfnod y cynllun.

1. Rheoli a chydgysylltu'r broses drosglwyddo

Nodwch fanylion y prif gyfrifoldebau a'r pwyntiau cyswllt. Er mwyn gwneud hynny, efallai y byddwch yn dymuno troi at y canllawiau ym mharagraffau 3.5 i 3.13. Er enghraifft, awgrymir y dylai pob ysgol enwebu uwch aelod o'i thîm rheoli i ymgymryd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros faterion sy'n ymwneud â throsglwyddo. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno enwebu Llywodraethwr a chanddo gyfrifoldeb dros faterion sy'n ymwneud â throsglwyddo. Nid oes gofyniad i sefydlu set o gyfarfodydd ar wahân ond dylid sicrhau bod cyfleoedd ar gael i'r rhai a enwebwyd gael cwrdd yn rheolaidd i adolygu cynnydd a chytuno ar y camau nesaf. Yn ôl yr amgylchiadau lleol, gallai'r broses drosglwyddo fod yn un eitem ar agenda fwy cyffredinol yn y cylchoedd cyfarfodydd presennol. Yn hyn o beth, nid oes un dull sy'n well na'i gilydd ond gallech ddymuno ystyried y canlynol.

Mae pob ysgol yn y bartneriaeth wedi enwebu aelod o'i thîm rheoli i arwain ar ddatblygu, gweithredu a gwerthuso'r camau a gytunwyd yn y cynllun hwn.

Grŵp Llywio

Bydd y rhai y mae ysgolion y bartneriaeth wedi'u henwebu'n cwrdd o leiaf unwaith bob tymor i adolygu cynnydd, nodi unrhyw faterion ychwanegol y mae angen rhoi sylw iddynt ac, os oes angen, cytuno ar y camau gweithredu priodol.

Adolygiad Blynyddol

Bydd y rhai y mae ysgolion y bartneriaeth wedi'u henwebu hefyd yn gwneud adolygiad blynyddol o'r cynllun hwn tua diwedd y flwyddyn ysgol ac yn ystyried y cynnydd a wnaed ac yn cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ddilynol gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau. Bydd cyrff llywodraethu ysgolion y bartneriaeth yn ystyried ac yn cytuno ar argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad.

Cydgysylltydd Trosglwyddo

Mae [……] wedi'i enwebu'n Gydgysylltydd Trosglwyddo. Bydd y cydgysylltydd yn hyrwyddo gwaith y grŵp llywio ac, yn benodol, yn cynghori ar

- fonitro'r cynnydd ar y prif feysydd i'w gwella sydd wedi'u nodi yn y cynllun
- y dull gorau o sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i gynnwys rhieni/gofalwyr a disgyblion wrth gael adborth a chynllunio
- sut i sicrhau bod cysylltiadau effeithiol â'r gwaith sy'n digwydd dan arweiniad yr awdurdod lleol
- unrhyw gamau i fodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi yng nghanllawiau Llywodraeth y Cynulliad mewn cysylltiad ag adolygu a chyhoeddi'r Cynllun Trosglwyddo.

2. Cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd

Dylai hyn fod ar ffurf dadansoddiad byr.

Dylai'r cwestiynau isod o baragraff 3.13 yn y canllawiau fod o gymorth i chi wrth bennu blaenoriaethau.

Dylai'r cynllun roi crynodeb o'r gweithgareddau presennol i wella dilyniant wrth gyflwyno'r cwricwlwm a fydd yn parhau a nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Gyda golwg ar y meysydd sydd i'w gwella, bydd angen cytuno ar flaenoriaethau. Felly, gallai'r cynllun roi crynodeb o'r meysydd allweddol sydd angen eu gwella yn ystod y cyfnod o dair blynedd gyda chynllun prosiect mwy manwl wedi'i atodi ar gyfer unrhyw faes penodol i gael sylw yn 2007-08. Byddai'r cynllun prosiect yn nodi'r goblygiadau o ran adnoddau. Nid oes gofyniad am ddechrau gwaith newydd ym mhob un o'r meysydd craidd bob blwyddyn. Materion i'w penderfynu drwy gytundeb lleol yw blaenoriaethau a chyflymder y gwaith datblygu.

Cwestiynau

- **Beth yw'r angen mwyaf am newid?**
- **A fydd y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm yn canolbwyntio ar bynciau ynteu sgiliau?**
- **Os bydd yn canolbwyntio ar bynciau, a fydd yn ymwneud ag un neu ragor o'r pynciau craidd yn unig, neu gymysgedd o bynciau craidd a sylfaen? Beth am ddilyniant ieithyddol yn y Gymraeg?**
- **Os bydd yn canolbwyntio ar sgiliau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd, defnyddio TGCh, sgiliau meddwl), pa sawl pwnc y dylid ei gynnwys?**
- **A fyddai'n briodol newid pwyslais gan ddilyn rhaglen dreigl dros nifer o flynyddoedd?**
- **Pwy a fydd yn arwain ar y gwaith hwn, ac a oes angen gweithgor o athrawon i ddatblygu adnoddau neu ganllawiau?**
- **Pa hyfforddiant mewn swydd y mae ei angen i hybu'r datblygiadau hyn?**

Gallai'r gwaith gorffenedig fod ar ffurf

- Manylion am y gwaith cyfredol, gan gynnwys cymryd rhan mewn unrhyw fentrau lleol, cenedlaethol neu fentrau a arweinir gan AALl a ddefnyddir i wella'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo.

Er enghraifft, gallai'r cynllun roi crynodeb o drefniant sy'n bod eisoes i athrawon yn nhair o bum ysgol y bartneriaeth sy'n ymwneud ag addysgu'r Gymraeg gael cwrdd ac adolygu'r rhaglen astudio ar gyfer eu gwaith yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 fel bod dilyniant a chynnydd wrth ddysgu.

Gallai fynd ymlaen wedyn i nodi sut y bydd hyn yn parhau gan osod targed i ymestyn y trefniant i holl ysgolion y bartneriaeth - erbyn mis Medi 2008, dyweder.

Yn ogystal, mae'r canllawiau ym mharagraff 3.13 yn cyfeirio at gymorth sydd i'w ddarparu i wella dilyniant y cwricwlwm i ysgolion sy'n cyfrannu at wireddu'r argymhellion yng nghynllun gweithredu Llywodraeth y Cynulliad ar Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol. Dan amgylchiadau o'r fath, gallai'r cynllun roi crynodeb o sut y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at wella'r broses drosglwyddo.

- Cytundeb ar unrhyw feysydd sydd i'w gwella gan osod amserlenni

Er enghraifft, gwaith i ddatblygu dull mwy cyson ymysg ysgolion y bartneriaeth i hyrwyddo llythrennedd neu gytundeb i ddatblygu uned bontio mewn pwnc penodol. Os oes bwriad i roi sylw i faes sydd i'w wella yn 2007-08, gellid atodi cynllun prosiect yn nodi rolau a chyfrifoldebau a ffynhonnell yr adnoddau ar gyfer y gwaith hwnnw, ee adnoddau'r ysgol, defnyddio HMS, y Gronfa Ysgolion Gwell, Grant Trosglwyddo'r Awdurdod Lleol, grantiau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Ceir manylion am ddeunyddiau canllaw ac adnoddau yn Adran 4 yn y canllawiau.

3. Dulliau o Sicrhau Dilyniant wrth Ddysgu ac Addysgu

Dylai hyn fod ar ffurf dadansoddiad byr.

Dylai'r cwestiynau isod o baragraff 3.13 yn y canllawiau fod o gymorth i chi wrth bennu blaenoriaethau.

Dylai'r cynllun roi crynodeb o'r gweithgareddau presennol i wella dilyniant dulliau dysgu ac addysgu a fydd yn parhau a nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Gyda golwg ar y meysydd sydd i'w gwella, bydd angen cytuno ar flaenoriaethau. Felly, gallai'r cynllun roi crynodeb o'r meysydd allweddol i'w gwella yn ystod y cyfnod o dair blynedd gyda chynllun prosiect mwy manwl wedi'i atodi ar gyfer unrhyw faes penodol i gael sylw yn 2007-08.

Cwestiynau

- **A oes dulliau dysgu ac addysgu cyffredin yn rhai neu'r cwbl o'r ysgolion cysylltiedig, a sut y gellid datblygu'r rhain ymhellach?**
- **Beth yw'r angen mwyaf am newid?**
- **Pa hyfforddiant mewn swydd y mae ei angen, ac ar gyfer pwy, i hybu'r datblygiadau hyn?**
- **Sut y gellir cynnig cyfleoedd i athrawon cynradd ac uwchradd gael rhannu profiadau ac arbenigedd drwy arsylwi ar ystafelloedd dosbarth a dulliau addysgu ei gilydd, er enghraifft, neu gyfarfod i drafod neu baratoi cynlluniau gwaith ar y cyd neu unedau pontio?**

- **Sut y gellir hyrwyddo dull cyson o ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd yn yr ysgolion sy'n gysylltiedig?**
- **A yw'r holl ysgolion sy'n gysylltiedig yn meddu ar yr adnoddau sy'n angenrheidiol? Os nad ydynt, a oes modd rhannu'r adnoddau presennol, er enghraifft, drwy ddefnyddio adnoddau'r ysgol uwchradd gyda disgyblion Blwyddyn 6?**

Gallai'r gwaith gorffenedig fod ar ffurf

- Unrhyw fentrau lleol neu genedlaethol neu rai dan arweiniad yr AALl sy'n cael eu defnyddio i wella'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo.
- Cytundeb ar feysydd sydd i'w gwella yn ystod cyfnod y Cynllun. Os oes bwriad i roi sylw i faes sydd i'w wella yn 2007-08, gellid atodi cynllun prosiect.

4. Cysondeb wrth asesu a monitro a dilyn cynnydd disgyblion drwy ei gymharu â'r cyrhaeddiad blaenorol

Dylai hyn fod ar ffurf dadansoddiad byr.

Dylai'r cwestiynau isod o baragraff 3.15 yn y canllawiau fod o gymorth i chi wrth bennu blaenoriaethau. Dylai'r cynllun roi crynodeb o'r gweithgareddau presennol i wella cysondeb wrth asesu a monitro a dilyn cynnydd disgyblion drwy ei gymharu â'r cyrhaeddiad blaenorol a fydd yn parhau a nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Bydd angen cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y meysydd y dylid eu gwella. Felly, gallai'r cynllun roi crynodeb o'r meysydd allweddol i'w gwella yn ystod y cyfnod o dair blynedd, gyda chynllun prosiect mwy manwl wedi'i atodi ar gyfer meysydd penodol i gael sylw yn 2007-08.

Cwestiynau

- **Pa gyfleoedd a roddir i athrawon y ddau gyfnod ddod at ei gilydd i drafod ac asesu gwaith plant fel y ceir cyd-ddealltwriaeth o safonau a dilyniant?**
- **Faint o arferion cyffredin a geir yn strategaethau asesu'r ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo?**
- **Pa wybodaeth am gyflawniad cyffredinol disgyblion sy'n cael ei rhannu ar hyn o bryd ar draws y clwstwr ysgolion?**
- **Pa wybodaeth am gyflawniad disgyblion unigol sy'n mynd o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ar adeg trosglwyddo'r disgyblion?**
- **Sut y gellir defnyddio data yn fwy effeithiol yn yr ysgol uwchradd i hwyluso'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm, ac i bennu targedau ar gyfer pynciau, adrannau, dosbarthiadau a disgyblion unigol?**

Cwestiynau

- Beth sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd o fewn yr AALl mewn cysylltiad ag asesu, monitro a dilyn cynnydd disgyblion (er enghraifft, gweithgorau ar draws yr AALl yn cynhyrchu unedau pontio neu bortffolios pwnc o waith disgyblion, dadansoddi data am gyflawniad disgyblion ar draws yr AALl a darparu crynodeb o ddata neu ddata ar gyfer unigolion i'r holl ysgolion)?
- Pa gymorth ychwanegol y mae ei angen (hyfforddiant mewn swydd, adnoddau, canllawiau AALl a data) i hyrwyddo cysondeb wrth asesu, monitro a dilyn cynnydd disgyblion?

Gallai'r gwaith gorffenedig fod ar ffurf

- Manylion am y gwaith cyfredol gan gynnwys cymryd rhan mewn unrhyw fentrau lleol neu genedlaethol neu rai dan arweiniad yr AALl sy'n cael eu defnyddio i wella'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo yn y maes hwn
- Cytundeb ar unrhyw feysydd sydd i'w gwella. Os oes bwriad i roi sylw i faes sydd i'w wella yn 2007-08, gellid atodi cynllun prosiect.

5. Gwerthuso effaith y polisi a'r cynlluniau gwella ar safonau

Dylai hyn fod ar ffurf dadansoddiad byr.

Dylai'r cwestiynau isod o baragraff 3.16 yn y canllawiau fod o gymorth i chi wrth bennu blaenoriaethau. Yn fyr, dylai'r cynllun roi crynodeb o'ch dull gwerthuso. Gyda golwg ar y meysydd sydd i'w gwella, bydd angen cytuno ar feysydd blaenoriaethol a fydd yn cael sylw dros gyfnod tair blynedd y cynllun. Felly, gallai'r cynllun roi crynodeb o'r hyn a gaiff sylw dros gyfnod tair blynedd y cynllun gyda chynllun prosiect mwy manwl wedi'i atodi os yw maes penodol i gael sylw yn 2007-08.

- **Pa strategaethau y mae eu hangen i fonitro effaith y cynllun o ran dilyniant wrth ddysgu, addysgu ac asesu a phwy a fydd yn gyfrifol am fonitro hynny?**
- **Pa wybodaeth y mae ei hangen i gyfrannu at fonitro'r effaith ar safonau?**
- **Sut y penderfynir ynghylch effeithiolrwydd y dull o reoli'r cynllun?**

Gallai'r gwaith gorffenedig fod ar y ffurf isod

- Ymrwymiad gan ysgolion y bartneriaeth i adolygu a datblygu'r cynllun yn rheolaidd fel y nodir yn adran 1.

Dylai'r dull sydd i'w fabwysiadu fod yn un sy'n gyson â'r manylion a nodwyd yn adran 1 y cynllun

- Manylion ynghylch sut y caiff effeithiau mentrau penodol eu monitro a'u rhannu ag ysgolion y bartneriaeth a'r grŵp llywio er mwyn dylanwadu ar waith yn y dyfodol.

Er enghraifft, gallai hyn gynnwys trefniadau i gael adborth gan ddisgyblion BI6 yn flynyddol ac ymgynghori ag athrawon BI6 a BI7.

- Nodi manylion cynlluniau lleol a rhai dan arweiniad yr AALl a ddefnyddir i ystyried effaith arferion gwell ar ansawdd dysgu a safonau.
- Er enghraifft, dadansoddi cyrhaeddiad disgyblion yn barhaus.

6. Meysydd ychwanegol y gellir eu cynnwys

Drwy gynnwys y meysydd uchod - rhifau 2 - 5 - sicrheir bod y cynllun yn bodloni'r Gofynion Craidd sydd wedi'u nodi yng nghanllawiau Llywodraeth y Cynulliad, a rhaid eu cynnwys mewn Cynllun Trosglwyddo yng ngolwg y pwyslais sydd ar ddilyniant wrth gyflwyno'r cwricwlwm. Fodd bynnag, derbynnir bod ysgolion yn hyrwyddo gwaith mewn meysydd fel gofal bugeiliol a rhannu gwybodaeth y byddant am ei nodi ac efallai am ddefnyddio'r cynllun i'w ymestyn i ysgolion eraill y bartneriaeth.

Mater i'w benderfynu'n lleol, felly, yw'r meysydd ychwanegol sydd i'w cynnwys mewn Cynllun Trosglwyddo. Mae'r canllawiau'n awgrymu tri maes, ond nid oes gofyniad cyfreithiol am gynnwys y meysydd hynny. Mae gofynion statudol eisoes mewn rhai meysydd - darparu gwybodaeth am ddisgyblion, er enghraifft. Y cwbl y dylid ei wneud yw croesgyfeirio at y ddogfennaeth sy'n bod eisoes ar gyfer meysydd o'r fath fel na cheir dyblygu.

Mae'r meysydd y mae'r canllawiau'n awgrymu rhoi sylw iddynt wedi'u nodi isod. Ceir cwestiynau am bob un ym mharagraff 3.19 i'ch helpu i bennu blaenoriaethau.

- **Bodloni anghenion personol a chymdeithasol y disgyblion.**
- **Rhannu gwybodaeth am ddisgyblion ar ben y gofynion statudol.**
- **Rhoi gwybod am anghenion dysgu disgyblion unigol ac am eu cyflawniadau a'u cyrhaeddiad.**

Mae'r rhai isod yn cytuno ar y cynllun hwn ar ran Cyrff Llywodraethu ysgolion y bartneriaeth

Ysgol _____

Enw _____

Llofnod _____

Dyddiad _____

Ysgol _____

Enw _____

Llofnod _____

Dyddiad _____

Ysgol _____

Enw _____

Llofnod _____

Dyddiad _____

Ysgol _____

Enw _____

Llofnod _____

Dyddiad _____

Ysgol _____

Enw _____

Llofnod _____

Dyddiad _____

Cadarnheir bod copi o'r cynllun wedi'i drosglwyddo i'r awdurdod(au) addysg lleol perthnasol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae copïau ar gael hefyd ar gais ym mhob un o ysgolion y bartneriaeth.

TEMPLED CYNLLUN PROSIECT

Os yw Cynllun Trosglwyddo yn nodi meysydd sydd i'w gwella, mae'n bosibl y bydd ysgolion yn dymuno defnyddio'r templed isod i gytuno ar y camau sydd i'w cymryd - e.e. nodau ac amcanion, rolau a chyfrifoldebau, amserlenni ac adnoddau.

Blaenoriaeth: Codi safonau gwaith ysgrifennu eglurol a darbwyllol y disgyblion				
Targed: Cynnal a gwella safonau cyflawniadau'r disgyblion, fel y'u haseswyd drwy Asesiadau Athrawon ar ddiwedd CA2, ar ddechrau Bl7				
Tasgau wedi'u cynllunio'n strategol:	**Meini prawf llwyddiant:**	**Personél cysylltiedig:**	**Amserlen:**	**Adnoddau Cyllideb:**
1. Cyfarfod cynllunio i drafod natur a phwrpas proses drosglwyddo effeithiol rhwng CA2 a CA3.		Penaethiaid 3 ysgol 3 Dirprwy Bennaeth 2 Gynghorydd	Medi	Amser
2. Cyfarfodydd cydgysylltu i drafod y maes dan sylw a nodi'r agweddau ar ysgrifennu mewn arddull eglurol a darbwyllol sydd angen eu datblygu ymhellach, a llunio cynllun gweithredu		Penaethiaid 3 ysgol 3 Dirprwy Bennaeth Cydgysylltydd Llythrennedd Pennaeth Saesneg	Dau ym mis Hydref	Cost athrawon llanw
3. Arsylwi ar wersi ei gilydd, gan ganolbwyntio ar a) Strategaethau addysgu sy'n helpu disgyblion i ysgrifennu'n dda mewn arddull eglurol a darbwyllol b) Safonau gwaith disgyblion o ran ysgrifennu mewn arddull eglurol a darbwyllol		2 o athrawon Saesneg uwchradd, 1 wedi'i ddyrannu i bob ysgol gynradd Athrawon cynradd Bl 6	Tachwedd ac Ionawr	Cost athrawon llanw

Tasgau wedi'u cynllunio'n strategol:	Meini prawf llwyddiant:	Personél cysylltiedig:	Amserlen:	Adnoddau Cyllideb:
4 Cyfarfodydd ar ôl arsylwi ar wersi a) i drafod yr arferion da a welwyd b) i gymedroli rhwng cyfnodau er mwyn cael llinell sylfaen ar gyfer y targed c) i graffu ar Gynlluniau Gwaith sy'n ymwneud ag ysgrifennu mewn arddull eglurol a darbwyllol	Barn gytûn am strategaethau dysgu ac addysgu effeithiol Cyd-ddealltwriaeth o safonau cyflawniad mewn cysylltiad â lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	2 o athrawon Saesneg uwchradd Athrawon cynradd Bl 6	Tachwedd ac Ionawr	Cost athrawon llanw
5. Cyfarfod cynllunio i ganolbwyntio ar dasg i'w defnyddio i asesu disgyblion Bl 7		Athrawon Saesneg uwchradd Athrawon cynradd Bl 6	Ionawr	Cost athrawon llanw
6. Cwblhau tasg Bl 7	Cynnal ymagwedd gadarnhaol ymysg disgyblion at ysgrifennu mewn arddull eglurol a darbwyllol Cynnal safonau yn y grŵp sampl	Athrawon Saesneg Bl 7	Chwefror	Testunau gosod

Tasgau wedi'u cynllunio'n strategol:	Meini prawf llwyddiant:	Personél cysylltiedig:	Amserlen:	Adnoddau Cyllideb:
7. Cyfarfod cymedroli i asesu gwaith Bl 7 er mwyn gwerthuso'r cynllun gweithredu fel y trefnwyd		Athrawon Saesneg uwchradd Athrawon cynradd Bl 6	Chwefror	Cost athrawon llanw
8. Cyfarfod gwerthuso cyfunol i drafod llwyddiant y prosiect o safbwynt ansawdd y dysgu a'r safonau a gyflawnwyd		3 o benaethiaid 3 o athrawon 3 o athrawon cynradd	Mawrth	Cost athrawon llanwr Cyfanswm y gost =
Monitro: gan bwy, sut, pa bryd Ar y dasg a gwblhawyd				
Gwerthuso: gan bwy, sut, pa bryd Yn ôl meini prawf llwyddiant gan osod targed ar y diwedd				

Rhestrau gwirio posibl ar gyfer hunanadolygu

Rheoli a Chydgysylltu'r broses drosglwyddo

	Sylwadau
A yw'r ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo wedi'u trefnu'n grŵp dalgylch/ consortiwm/teulu o ysgolion?	
A oes grŵp llywio ar gyfer y cynllun trosglwyddo sy'n cynnwys cynrychiolwyr yr holl ysgolion cysylltiedig? Pwy yw'r aelodau a pha bryd y mae'n cwrdd?	
Pwy sydd wedi'i ddynodi'n gydgysylltydd i'r grŵp? Beth yw cyfrifoldebau'r cydgysylltydd?	
Beth yw goblygiadau'r cynllun trosglwyddo o ran adnoddau ar ffurf cyllido, amser staff ac anghenion hyfforddi?	
Pa gymorth sydd ar gael, ee gan yr AALl, ffynonellau cyllid eraill?	
Sut y gellir gwella'r trefniadau cynefino presennol i hwyluso'r broses o drosglwyddo disgyblion i Bl 7?	
Sut y bydd barn disgyblion a rhieni'n cael ei chasglu?	
Beth a gytunodd y grŵp o ran pa bryd a sut y cyflawnir y gwelliant hwn?	
Pwy a fydd yn llunio'r cynllun ysgrifenedig, sut y caiff ei gyhoeddi a sut y darperir copïau?	

Dilyniant wrth gynllunio'r cwricwlwm

	Sylwadau
Sut y mae athrawon yn dysgu mwy am y rhaglen astudio ar gyfer cyfnodau allweddol ei gilydd fel bod dilyniant a chynnydd wedi'u plannu yn y cyfnod trosglwyddo?	
Sut y mae athrawon yn trafod ac yn datblygu cynlluniau gwaith fel na cheir dyblygu ar gynnwys wrth i ddisgyblion symud o Bl6 i Bl7?	
Sut y mae athrawon yn dylunio unedau gwaith hylaw sy'n pontio rhwng Bl6 a Bl7?	
Pa drefniadau sydd ar gael i alluogi athrawon i ddysgu am ddulliau addysgu ei gilydd drwy arsylwi a thrafod?	
Sut y mae athrawon yn datblygu dulliau cyson o addysgu llythrennedd, rhifedd a sgiliau TGCh?	
Sut y mae athrawon yn cydasesu gwaith disgyblion yn Bl6 a Bl7?	
Sut y mae athrawon yn canfod anghenion dysgu disgyblion unigol ac yn datblygu dulliau o ddiwallu anghenion o'r fath?	

Dilyniant o ran dysgu ac addysgu

	Sylwadau
Sut yr ydych yn sicrhau dulliau dysgu ac addysgu cyffredin yn yr ysgolion cysylltiedig, gan ddarparu hyfforddiant (ar y cyd) yn ôl yr angen?	
Sut y llwyddwyd i sicrhau bod athrawon cynradd ac uwchradd yn cwrdd yn rheolaidd i arsylwi ar ddosbarthiadau a dulliau addysgu ei gilydd?	
Sut yr ydych yn sicrhau bod cynllunio ar y cyd yn digwydd rhwng athrawon cynradd ac uwchradd?	
Sut yr ydych yn sicrhau dull cyson o ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd yn yr holl ysgolion cysylltiedig?	
Sut yr ydych yn rhannu'r adnoddau presennol er budd yr holl ysgolion/ disgyblion sy'n gysylltiedig?	
Sut yr ydych yn canfod a yw disgyblion Blwyddyn 7 yn gweithio ar lefel is nag yr oeddent ym Mlwyddyn 6 neu a ydynt yn ailadrodd gwaith y maent wedi'i wneud yn barod?	

Cwestiynau ar gyfer yr ysgol uwchradd:

	Sylwadau
A ystyriwyd cael cyfnod cynefino pryd y câi disgyblion eu haddysgu gan dîm bach o athrawon y rhan fwyaf o'r amser?	
A fyddai manteision o grwpio pynciau, ee yn y dyniaethau a gwyddoniaeth, fel bod un athro'n addysgu'r holl bynciau ym Mlwyddyn 7, gan ddefnyddio dull thematig weithiau?	
A fyddai'n fuddiol amserlennu rhai gwersi pwnc ar sail dosbarth sy'n dyblygu ystafell ddosbarth yr ysgol gynradd?	
A ydych wedi ystyried creu lle yn yr ysgol lle y caiff disgyblion Blwyddyn 7 hunaniaeth ar wahân a lle y gallant ymgymryd ag amryw o gyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r lle sy'n 'gartref' iddynt a'u grŵp blwyddyn?	
A oes dadl dros integreiddio addysgu ar gyfer astudio annibynnol, gwaith cartref, sgiliau trefnu a sgiliau cymdeithasol â'r holl bynciau gan ddefnyddio dull cyffredin y cytunwyd arno?	
A ydych yn adolygu'n rheolaidd y modd y mae cynorthwywyr addysgu yn cael eu lleoli ym Mlwyddyn 7?	

Dilyniant wrth asesu, monitro a dilyn cynnydd disgyblion

	Sylwadau
Sut yr aethoch ati i greu rhaglen i alluogi athrawon y ddau gyfnod i ddod at ei gilydd i drafod ac asesu gwaith plant fel bod cyd-ddealltwriaeth o safonau a chynnydd? Pa mor aml y mae hyn yn digwydd?	
Sut yr aethoch ati i gytuno ar system ar gyfer rhannu gwybodaeth ymysg y grŵp o ysgolion ac ar yr wybodaeth sy'n mynd o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ar adeg trosglwyddo'r disgyblion?	
Sut y mae'r ysgol uwchradd yn defnyddio data i osod targedau ar gyfer pynciau, adrannau, dosbarthiadau a disgyblion unigol?	
Sut y gallwch greu system gyffredin i ddilyn cyflawniadau disgyblion a gaiff ei throsglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd?	

Sut a pha bryd yr ydych yn rhannu'r wybodaeth ganlynol?

	Sylwadau
Safonau mewn pynciau craidd a gyrhaeddwyd gan ddisgyblion ar ddiwedd CA2, gan gynnwys safonau yn y Gymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith.	
Safonau mewn pynciau heblaw rhai craidd a gyrhaeddwyd gan ddisgyblion ar ddiwedd CA2.	
Safonau llythrennedd disgyblion y mae'r Saesneg yn ail iaith iddynt.	
Copïau o adroddiadau Blwyddyn 6 i rieni.	
Cynlluniau cymorth ymddygiad y disgyblion.	
Cofnodion presenoldeb disgyblion Blwyddyn 6.	
Cynlluniau Addysg Unigol a datganiadau Anghenion Addysgol Ychwanegol.	
Manylion cyflawniadau neu ddoniau penodol mewn gweithgareddau allgwricwlaidd fel cerddoriaeth, chwaraeon, celf, TGCh.	
Unrhyw wybodaeth arall sy'n debygol o effeithio'n gymdeithasol neu'n academaidd ar y gallu i drosglwyddo'n llwyddiannus.	
Gwybodaeth am ddisgyblion sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd y tu allan i ddalgylch traddodiadol yr ysgol.	
A oes dyddiadau a gweithdrefnau cytunedig ar gyfer anfon/derbyn gwybodaeth?	
A yw gwybodaeth yn cael ei rhannu gan ddefnyddio fformat a gytunwyd? Sut yr ydych wedi penderfynu ar y fformat hwnnw?	

Sut y caiff gwybodaeth neu ddata eu defnyddio yn yr ysgol uwchradd?

	Sylwadau
Sut y mae athrawon pwnc yn yr ysgol uwchradd yn gwybod am alluoedd ac anghenion dysgu unigol y disgyblion y maent yn eu haddysgu?	
Pwy yw'r uwch reolwr yn yr ysgol uwchradd sydd â chyfrifoldeb dros dderbyn a lledaenu gwybodaeth, ac wedyn dros fonitro a gwerthuso'r defnydd o'r wybodaeth hon i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn CA3?	
Sut y mae'r ysgolion cynradd yn derbyn adborth ar gyflawniad disgyblion ym Mlwyddyn 7 a Chyfnod Allweddol 3 ar ei hyd?	
Sut yr ydych yn sicrhau bod athrawon Blwyddyn 6 yn ymweld â'r ysgol uwchradd ar ddiwedd y tymor cyntaf i arsylwi ar 'eu' disgyblion yn y dosbarth ac edrych ar eu gwaith?	
Sut yr ydych yn defnyddio data yn effeithiol i ganfod tangyflawniad gan ddisgyblion unigol, gan grwpiau ac mewn pynciau penodol?	
Sut yr ydych yn defnyddio data yn effeithiol i bennu targedau ar gyfer pynciau uwchradd, adrannau, dosbarthiadau a disgyblion unigol?	
Sut yr ydych yn defnyddio data yn effeithiol i gynllunio'r cyfnodau dysgu nesaf?	

Cwestiynau i'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig uwchradd:

	Sylwadau
A fyddwch yn bresennol yn adolygiadau blynyddol yr holl ddisgyblion Blwyddyn 6? Sut y trefnir hynny?	
A ydych yn cwrdd â'r cydlynwyr AAA cynradd i adolygu cynnydd disgyblion Blwyddyn 6 a chynllunio darpariaeth iddynt ym Mlwyddyn 7? Pa bryd y mae hyn yn digwydd?	
A ydych yn ymweld â'r holl ysgolion cynradd sy'n bwydo yn nhymor yr haf i siarad ag athrawon Blwyddyn 6 a chwrdd â disgyblion y bydd arnynt angen cymorth i ddysgu? Sut y trefnir hynny?	
A ydych yn derbyn copïau o Gynlluniau Addysg Unigol diweddaraf y disgyblion ac yn eu rhannu ymlaen llaw ag athrawon a fydd yn addysgu'r disgyblion hynny ym Mlwyddyn 7? Pa bryd y mae hyn yn digwydd?	
A ydych yn rhoi gwybodaeth benodol am alluoedd disgyblion wrth siarad a gwrando, darllen, ysgrifennu, sillafu a gwneud gwaith rhif i'r holl athrawon Blwyddyn 7? Sut?	

Anghenion dysgu ychwanegol yn yr ysgol uwchradd

Pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth am anghenion grwpiau disgyblion penodol? Er enghraifft, rhai sydd:

	Sylwadau
Ag angen cymorth ychwanegol i ddysgu?	
Yn tangyrraedd?	
Mewn perygl o dangyflawni?	
Yn alluog ac yn dalentog?	
Â diffyg cymhelliant a hunan-barch?	
Ag anawsterau ymddygiadol?	
Â phroblemau o ran presenoldeb?	
Â Saesneg yn iaith ychwanegol?	
Yn blant sy'n derbyn gofal?	

Adolygu a monitro'r Cynllun Trosglwyddo

	Sylwadau
Sut y mae'r ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo wedi llunio a chytuno ar un polisi trosglwyddo ysgrifenedig sy'n bodloni'r rheoliadau?	
Pa mor aml a pha bryd y caiff y cynllun hwn ei adolygu a'i newid yn ôl yr angen i'w wella ac i gyd-fynd â newid mewn amgylchiadau? Pwy fydd yn gyfrifol am y gwaith hwn a sut y caiff ei drefnu?	
Sut y bydd cyrff llywodraethu ac uwch reolwyr yr ysgolion cysylltiedig yn monitro effaith y cynllun trosglwyddo o ran dilyniant wrth ddysgu, addysgu ac asesu?	
Sut y bydd cyrff llywodraethu ac uwch reolwyr yr ysgolion cysylltiedig yn adolygu effaith y cynllun trosglwyddo ar y safonau a gyrhaeddwyd?	
Sut y bydd pawb sy'n gysylltiedig yn sicrhau bod y broses adolygu hon yn pennu cyfeiriad gwaith cynllunio yn y dyfodol?	
Sut y penderfynir ynghylch effeithiolrwydd y dull o reoli'r cynllun trosglwyddo?	

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L

2006 Rhif (Cy.520 (Cy64))

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Pontio Rhwng yr Ysgol Gynradd a'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adran 198 o Ddeddf Addysg 2002 yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu pob ysgol uwchradd (neu ddosbarth penodedig ar ysgol uwchradd) a gynhelir gan awdurdod addysg lleol yng Nghymru a chyrff llywodraethu'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo ac a gynhelir yn yr un modd, lunio, ar y cyd, gynlluniau i hwyluso disgyblion i bontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd ("Cynlluniau Pontio").

Nid oes unrhyw ddiffiniad o "feeder primary school" (ysgol gynradd sy'n bwydo) at ddibenion adran 198, ond wrth benderfynu a yw ysgol gynradd benodol yn ysgol gynradd sy'n bwydo mewn perthynas ag ysgol uwchradd benodol, rhaid rhoi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan y Cynulliad Cenedlaethol, a chaniateir i reoliadau ddarparu bod anghydfodau i'w penderfynu gan y Cynulliad Cenedlaethol (rheoliad 4).

Caniateir hefyd i reoliadau wneud darpariaeth ynghylch cynlluniau, gan gynnwys darparu ynghylch amseru, cynnwys, adolygu a diwygio.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer penderfynu anghydfodau gan y Cynulliad Cenedlaethol (rheoliad 4).

Maent yn cynnwys darpariaethau hefyd ynglŷn â Chynlluniau Pontio, gan gynnwys –

- **gofynion ynghylch ffurf a chynnwys y cynlluniau, ac ar gyfer eu cyhoeddi (rheoliad 5 a'r Atodlen)**
- **gofynion ynghylch pa bryd y mae'n rhaid llunio a chyhoeddi'r cynlluniau cyntaf ac ynghylch y**

garfan gyntaf o ddisgyblion i'w cynnwys (rheoliad 6)

- **darpariaeth ar gyfer adolygu'r cynlluniau a phan fo'n angenrheidiol neu'n ddymunol, ar gyfer eu diwygio neu eu hamnewid (rheoliad 7)**
- **darpariaeth ynglŷn â'r modd y mae cynlluniau i'w cyhoeddi (rheoliad 8)**
- **gofyniad bod copïau o'r cynlluniau i'w hanfon at yr awdurdod addysg lleol neu'r awdurdodau y mae'r ysgolion yn cael eu cynnal ganddynt ac at unrhyw un sy'n gofyn am gopi (rheoliad 9).**

2006 Rhif (Cy.)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud	**2006**
Yn dod i rym	**1 Medi 2006**

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 198(3) a (210)(7) o Ddeddf Addysg 2002(1), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 1 Medi 2006.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Blwyddyn 6" ("Year 6") yw'r grŵp blwyddyn o ddisgyblion ysgol gynradd y disgwylir i'r cyfan neu'r mwyafrif o'r disgyblion ynddi drosglwyddo i ysgol uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ganlynol;

ystyr "blwyddyn ysgol" ("school year") yw'r cyfnod sy'n dechrau gyda'r tymor ysgol cyntaf i ddechrau ar ôl Gorffennaf ac sy'n dod i ben ar ddechrau'r tymor cyntaf o'r fath sy'n dechrau ar ôl y Gorffennaf canlynol;

ystyr "Cynllun Pontio" ("Transition Plan") yw cynllun o'r math y cyfeirir ato yn adran 198(1) o Ddeddf 2002 a rheoliad 3(2);

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("National Assembly") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 2002" ("the 2002 Act") yw Deddf Addysg 2002;

---

(1) 2002 p.32.

ac mae cyfeiriadau at gyhoeddi Cynllun Pontio (gan gynnwys cynllun diwygiedig) neu ddatganiad o'r math y cyfeirir ato yn rheoliad 7(6) yn gyfeiriadau at gyhoeddi'r cynllun neu'r datganiad yn unol â rheoliad 8.

Cymhwyso'r Rheoliadau

3.—(1) Dim ond mewn perthynas ag ysgolion y mae Cynlluniau Pontio yn ofynnol ar eu cyfer y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys.

(2) At ddibenion paragraff (1), mae Cynlluniau Pontio'n ofynnol ar gyfer pob ysgol uwchradd a gynhelir gan awdurdod addysg lleol yng Nghymru (neu sy'n dod o fewn dosbarth penodedig ar ysgol o'r fath), ac ar gyfer pob un o'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo ac a gynhelir gan yr awdurdod hwnnw, ac mae'n ofynnol i gorff llywodraethu pob un o'r ysgolion uwchradd a chynradd hynny, yn rhinwedd gofyniad a osodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 198(1) o Ddeddf 2002, lunio cynlluniau ar y cyd i hwyluso'r broses o drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ddisgyblion yn yr ysgolion cynradd hynny sy'n cael eu derbyn i'r ysgol uwchradd.

Anghydfodau ynghylch a yw ysgol yn ysgol gynradd sy'n bwydo

4. At ddibenion adran 198 o Ddeddf 2002, mae unrhyw anghydfod ynghylch a yw ysgol benodol i'w hystyried yn ysgol gynradd sy'n bwydo mewn perthynas ag ysgol uwchradd benodol i'w benderfynu gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ffurf a chynnwys Cynlluniau Pontio a chyhoeddi'r Cynlluniau hynny

5.—(1) Mae Cynllun Pontio unigol i'w lunio ar gyfer ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo, ond caiff gynnwys darpariaeth ar gyfer unrhyw un ysgol gynradd sy'n bwydo neu ar gyfer mwy ohonynt a honno'n ddarpariaeth sy'n wahanol i'r ddarpariaeth ar gyfer yr ysgol gynradd arall, neu'r ysgolion cynradd eraill, sy'n bwydo.

(2) Rhaid i Gynlluniau Pontio fod yn ysgrifenedig.

(3) Rhaid i bob cynllun esbonio'n gryno effaith adran 198 o Ddeddf 2002 (ac, yn benodol, diben Cynllun Pontio).

(4) Rhaid i bob cynllun ddatgan ei fod wedi'i lunio ar y cyd gan gorff llywodraethu'r ysgol uwchradd o dan sylw a chyrff llywodraethu'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo, a rhaid iddo ddatgan enwau'r holl ysgolion.

(5) Rhaid i bob cynllun nodi'r garfan gyntaf o ddisgyblion y mae'n gymwys iddi drwy gyfeirio at y flwyddyn ysgol y symudodd y disgyblion cyntaf hynny ar ei dechrau i fyny i Flwyddyn 6 yn eu hysgol gynradd.

(6) Rhaid i bob cynllun gael ei gyhoeddi a rhaid iddo ddatgan y dyddiad y cafodd ei gyhoeddi.

(7) Rhaid i Gynlluniau Pontio ymdrin (o leiaf) â'r materion a bennir yn yr Atodlen.

(8) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at gynllun yn cynnwys cyfeiriadau at gynllun diwygiedig.

Paratoi'r Cynlluniau Pontio cyntaf a'u cyhoeddi

6.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i'r Cynllun Pontio cyntaf ar gyfer ysgol uwchradd a phob ysgol gynradd sy'n bwydo'r ysgol uwchradd honno gael ei gyhoeddi ar neu cyn dechrau'r flwyddyn ysgol ar gyfer cyhoeddi.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y flwyddyn ysgol ar gyfer cyhoeddi" yw blwyddyn ysgol yr ysgol uwchradd yn union ar ôl yr un y trosglwyddodd disgyblion yr ysgolion cynradd sy'n bwydo ar ei dechrau am y tro cyntaf i'r ysgol uwchradd o'r ysgolion hynny (fel ysgolion cynradd sy'n bwydo), neu flwyddyn ysgol 2007/2008 (p'un bynnag yw'r diweddaraf).

(3) Y disgyblion cyntaf y mae Cynllun Pontio yn gymwys iddynt yw'r disgyblion hynny, o bob ysgol gynradd sy'n bwydo, sy'n disgwyl trosglwyddo o'r ysgol gynradd sy'n bwydo i'r ysgol uwchradd ym mlwyddyn ysgol yr ysgol uwchradd yn union ar ôl y flwyddyn ysgol ar gyfer cyhoeddi.

(4) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo Cynllun Pontio eisoes mewn bod ar gyfer ysgol uwchradd ac ysgol gynradd neu ysgolion cynradd sydd eisoes yn bwydo i'r ysgol uwchradd honno a hwnnw'n gynllun sydd i'w adolygu o dan reoliad 7(1)(a) (ar ôl i "ysgol gynradd newydd" ddod yn ysgol gynradd sy'n bwydo i'r ysgol uwchradd honno).

(5) Rhaid i'r gwaith o lunio Cynllun Pontio cyntaf ddechrau mewn da bryd i'r cynllun gael ei gyhoeddi ar y dyddiad y mae'n ofynnol ei gyhoeddi o dan y rheoliad hwn.

Adolygu Cynlluniau Pontio

7.—(1) Rhaid i Gynllun Pontio gael ei adolygu -

(a) os daw ysgol gynradd ("yr ysgol gynradd newydd") yn ysgol gynradd sy'n bwydo i ysgol uwchradd y mae ganddi eisoes un neu ragor o ysgolion cynradd sy'n ei bwydo;

(b) os yw cyrff llywodraethu pob un o'r ysgolion o dan sylw o'r farn y gallai fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol i adolygiadau gael eu gwneud; ac

(c) sut bynnag cyn diwedd y cyfnod o dair blynedd gan ddechrau ar y dyddiad y cafodd y Cynllun Pontio cyntaf ei gyhoeddi ac (yn ddarostyngedig i baragraff (14)) bob tair blynedd ar ôl hynny.

(2) Diben adolygiad o dan is-baragraff (a) o baragraff (1) yw bod cyrff llywodraethu'r ysgolion a luniodd y Cynllun Pontio cyfredol a chorff llywodraethu'r ysgol gynradd newydd, ar ôl cydadolygu'r Cynllun Pontio cyfredol a phwyso a mesur pa ddiwygiadau y mae'n angenrheidiol neu'n ddymunol eu gwneud iddo, yn llunio ar y cyd Gynllun Pontio diwygiedig neu newydd gan roi sylw, yn benodol, i farn corff llywodraethu'r ysgol gynradd newydd ar yr hyn y dylai'r cynllun ei gynnwys.

(3) Diben adolygiad o dan is-baragraff (b) neu (c) o baragraff (1) yw bod cyrff llywodraethu'r ysgolion a luniodd y Cynllun Pontio cyfredol yn pwyso a mesur a yw'n angenrheidiol neu'n ddymunol adolygu'r cynllun ac, os bernir ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol ei ddiwygio, eu bod yn llunio ar y cyd Gynllun Pontio diwygiedig neu newydd.

(4) Caniateir i gynllun sydd wedi'i adolygu o dan baragraff (1)(b) gael ei adolygu ymhellach o dan y paragraff hwnnw.

(5) Yn dilyn adolygiad o dan baragraff (1)(a) rhaid adolygu'r Cynllun Pontio cyfredol neu lunio Cynllun Pontio newydd.

(6) Os yw'r cyrff llywodraethu, yn sgil adolygiad o dan baragraff (1)(b) neu (c), yn penderfynu peidio ag adolygu (neu amnewid) y Cynllun Pontio cyfredol, rhaid iddynt gyhoeddi datganiad sy'n cofnodi'r penderfyniad hwnnw ac yn rhoi rhesymau cryno drosto ("Datganiad")

(7) Yn achos adolygiad o dan baragraff (1)(a), rhaid i'r Cynllun Pontio newydd (neu ddiwygiedig) gael ei gyhoeddi ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ar gyfer cyhoeddi neu cyn hynny, a rhaid i'r adolygiad ddechrau mewn da bryd i'r gofyniad hwnnw gael ei fodloni.

(8) Ym mharagraff (7), ystyr "y flwyddyn ysgol ar gyfer cyhoeddi" yw blwyddyn ysgol yr ysgol uwchradd yn union ar ôl y flwyddyn y trosglwyddodd disgyblion cyntaf yr ysgol gynradd newydd (fel ysgol gynradd sy'n bwydo) ar ei dechrau i'r ysgol uwchradd.

(9) Yn achos adolygiad o dan baragraff (1)(a), y disgyblion cyntaf o'r ysgol gynradd newydd y mae'r Cynllun Pontio newydd neu ddiwygiedig yn gymwys iddi yw'r disgyblion hynny sy'n disgwyl trosglwyddo i'r ysgol uwchradd ym mlwyddyn ysgol yr ysgol

uwchradd yn union ar ôl y flwyddyn ysgol ar gyfer cyhoeddi.

(10) Yn achos adolygiad o dan baragraff (1)(b), rhaid i'r Cynllun Pontio newydd (neu ddiwygiedig) neu'r Datganiad, yn ôl y digwydd, gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(11) Yn achos adolygiad o dan baragraff (1)(c), rhaid i'r Cynllun Pontio newydd (neu ddiwygiedig) neu'r Datganiad, yn ôl y digwydd, gael ei gyhoeddi ar ddiwedd neu cyn y cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau ar y dyddiad y cyhoeddwyd y Cynllun Pontio cyfredol, a rhaid i'r adolygiad ddechrau mewn da bryd i'r gofyniad hwnnw gael ei fodloni.

(12) Yn y rheoliad hwn ystyr "y Cynllun Pontio cyfredol" yw'r Cynllun Pontio sy'n gyfredol adeg yr adolygiad.

(13) Yn y Rheoliad hwn ac yn rheoliad 8 mae i'r gair "Datganiad" yr ystyr sydd iddo ym mharagraff (6) o'r rheoliad hwn.

(14) Pan fo Cynllun Pontio yn cael ei ddiwygio neu ei amnewid ar ôl adolygiad o dan is-baragraff (a) neu (b) o baragraff (1), bydd y cyfnodau o dair blynedd rhwng adolygiadau, sef y cyfnodau y cyfeiriwyd atynt yn is-baragraff (c) o'r paragraff hwnnw, yn rhedeg o hyn ymlaen o'r dyddiad y cyhoeddwyd y Cynllun diwygiedig neu newydd.

Dull cyhoeddi Cynlluniau Pontio a darparu copïau

8.—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae Cynllun Pontio neu Ddatganiad yn cael ei gyhoeddi wrth iddo gael ei roi ar gael yn yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo, sef yr ysgolion y mae'r Cynllun neu'r datganiad hwnnw yn ymwneud â hwy, gan gyrff llywodraethu'r ysgolion hynny i'w archwilio yn yr ysgolion.

(2) Yn y rheoliad hwn mae "Cynllun Pontio" yn cynnwys Cynllun diwygiedig o'r fath.

9.—(1) Rhaid i gorff llywodraethu yr ysgol uwchradd ddarparu copi o'r Cynllun Pontio i'r awdurdod addysg lleol y mae'r ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n bwydo yn cael eu cynnal ganddo neu, os ydynt yn cael eu cynnal gan ddau awdurdod addysg lleol gwahanol neu fwy, i bob un neu i'r cyfan ohonynt.

(2) Rhaid i gorff llywodraethu yr ysgol uwchradd neu gorff llywodraethu'r ysgol gynradd sy'n bwydo, yn ôl y digwydd, ddarparu copi o'r Cynllun Pontio i unrhyw berson sy'n gofyn i'r corff llywodraethu hwnnw am gopi, a chaniateir i'r corff llywodraethu hwnnw godi ffi am unrhyw gopi o'r cynllun a ddarperir ganddo o dan y paragraff hwn (a honno'n ffi nad yw'n fwy na chost ei ddarparu).

(3) Yn y rheoliad hwn mae "Cynllun Pontio" yn cynnwys cynllun diwygiedig.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

Dyddiad

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

YR ATODLEN

Rheoliad 5(7)

Materion y mae'n rhaid ymdrin â hwy mewn Cytundebau Pontio

1. Y cynigion cyffredinol ar gyfer rheoli a chyd-drefnu trosglwyddiad disgyblion o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo i'r ysgol uwchradd.
2. Disgrifiad o sut y caiff parhad wrth gynllunio cwricwlwm ei sicrhau yn y trosglwyddiad o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo i'r ysgol uwchradd.
3. Disgrifiad o sut y caiff parhad mewn dulliau addysgu a dysgu ei sicrhau yn ystod y trosglwyddiad.
4. Disgrifiad o sut y caiff cysondeb wrth asesu, monitro ac olrhain cynnydd disgyblion ei sicrhau yn ystod y trosglwyddiad.
5. Y trefniadau ar gyfer adolygu a monitro'r cynllun er mwyn asesu ei effaith ar y safonau a gyrhaeddir gan ddisgyblion sy'n cael eu derbyn i'r ysgol uwchradd, ac ar gyfer ystyried sut y gellir rheoli'r broses drosglwyddo yn well.

---

(1) 1998 p.38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

I S - D D E D D F W R I A E T H

2006 Rhif.12

ADDYSG, CYMRU

Gofyniad am lunio Cynlluniau Pontio ac arweiniad 2006

Wedi'i wneud	*28 Chwefror 2006*
Yn dod i rym	*1 Medi 2006*

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwerau o dan adran 198(1) o Ddeddf Addysg 2002 ("y Ddeddf") i wneud gofyniad ("y gofyniad") sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir (neu ddosbarth penodedig o ysgolion uwchradd a gynhelir) a chyrff llywodraethu ysgolion cynradd sy'n eu bwydo, lunio, ar y cyd, gynlluniau ("cynlluniau pontio") i hwyluso i ddisgyblion bontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Caiff y Cynulliad roi arweiniad, gan gynnwys, yn rhinwedd is-adran (2), arweiniad at ddibenion penderfynu a yw ysgol benodol i'w hystyried yn ysgol gynradd sy'n bwydo ysgol uwchradd benodol ("yr Arweiniad"). Wrth benderfynu ar y cwestiwn hwnnw, rhaid parchu'r Arweiniad. Caiff y ddau bŵer hynny eu harfer gan yr Offeryn hwn.

Cymhwyso a statws

Mae'r Offeryn hwn i ddod i rym ar 1 Medi 2006 ac, yn unol â hynny, daw'r Gofyniad a'r Arweiniad yn effeithiol ar y dyddiad hwnnw. **Nid yw'r Offeryn yn diddymu nac yn diwygio deddfwriaeth flaenorol.**

Mae Rheoliadau cysylltiedig (Rheoliadau Pontio Rhwng yr Ysgol Gynradd a'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006) hefyd yn dod i rym ar 1 Medi 2006 ac mae Cynlluniau Pontio i fod yn eu lle erbyn 1 Medi 2007. Y garfan gyntaf o ddisgyblion i drosglwyddo o dan y trefniadau hyn fydd y rhai a fydd yn trosglwyddo ym Medi 2008.

Categorïau o ysgolion sy’n ddarostyngedig i'r Gofyniad

(a) Y Cefndir

Fel yr esbonnir isod, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi penderfynu cyfyngu ar y categorïau o ysgolion cynradd a gynhelir, ac sydd i'w hystyried yn ysgolion cynradd sy'n bwydo ysgol uwchradd at ddibenion adran 198 o'r Ddeddf, ac y mae'n ofynnol iddynt felly lunio Cynlluniau Pontio, i’r rhai y ceir yn achos eu disgyblion symud sylweddol rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd ar ddiwedd Blwyddyn 6.

(b) Y Gofyniad

Yn unol â hynny, mae'r Gofyniad i fod yn gymwys i:

- **ysgolion uwchradd cymunedol, gwirfoddol a sefydledig pan fo ganddynt ysgolion cynradd sy'n eu bwydo fel a ddiffinnir isod yn yr Arweiniad; ac**

- **ysgolion cynradd cymunedol, gwirfoddol a sefydledig fel a ddiffinnir felly.**

Arweiniad ar y diffiniad o “Ysgol Gynradd sy'n Bwydo”

(i) Y Cefndir

Nod Cynlluniau Pontio yw meithrin perthynas waith glòs rhwng ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo. Seilir y berthynas hon ar ymrwymiad parhaus i gydweithio ar ddatblygu a chyflwyno’r cwricwlwm mewn modd sy'n cynnal parhad a chynnydd mewn dysgu ar gyfer disgyblion wrth iddynt symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

Cydnabyddir bod gan bob ysgol gynradd yng Nghymru eisoes gysylltiadau gyda nifer o ysgolion uwchradd o ganlyniad i ofynion sy'n bodoli eisoes am drosglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion i’r ysgol uwchradd briodol pan fydd y disgyblion yn symud i Gyfnod Allweddol 3. Rheolir y broses o drosglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion gan reoliadau sy'n bodoli eisoes - Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004 (Offeryn Statudol Cymru 2004 Rhif 1026 (Cy.123).

Bydd Cynlluniau Pontio yn atgyfnerthu’r trefniadau presennol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion a’r trefniadau ar gyfer trosglwyddo pobl ifanc â datganiad anghenion addysgol arbennig ac yn

ychwanegu gwerth at y trefniadau. Yn benodol, fel yr argymhellwyd gan Estyn, bydd Cynlluniau Pontio yn canolbwyntio ar barhad o ran cyflwyno'r cwricwlwm ac ar unioni'n well arferion yr ystafell ddosbarth.

Mae'r Cynulliad o'r farn felly y dylid cyfyngu'r Gofyniad am lunio Cynlluniau Pontio i achosion lle y mae perthynas wedi'i sefydlu ac yn parhau rhwng ysgol gynradd ac ysgol uwchradd benodol a honno'n berthynas wedi'i seilio ar fwyafrif disgyblion carfan Blwyddyn 6 yr ysgol gynradd sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd benodol honno.

Bydd y dull hwn o weithredu'n sicrhau y rhoddir Cynlluniau Pontio yn eu lle pan fo sail gadarn i ysgolion weithio gyda'i gilydd a chymryd camau ymarferol i wella parhad o ran cyflwyno'r cwricwlwm. Mae hefyd yn ysgafnhau'r baich ar ysgolion drwy sicrhau na fydd yn ofynnol i ysgol gynradd weithio gyda mwy nag un ysgol uwchradd i ddatblygu Cynllun Pontio.

Dylid nodi mai dim ond at ddibenion adran 198 o Deddf Addysg 2002 y mae'r diffiniad o ysgol gynradd sy'n bwydo. Nid yw'n effeithio ar feini prawf derbyn sydd gan ysgolion uwchradd eisoes nac yn penderfynu beth yw dalgylch ysgol uwchradd benodol.

(ii) Arweiniad

Yn unol â hynny:

At ddibenion adran 198 o'r Ddeddf, dylid ystyried ysgol yn ysgol gynradd sy'n bwydo ysgol uwchradd benodol os yw mwy na hanner carfan Blwyddyn 6 wedi trosglwyddo i'r ysgol uwchradd ar ddiwedd y flwyddyn ysgol ddiwethaf.

Fodd bynnag, mewn ymateb i sylwadau a gofrestrwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch maint carfan mewn ysgolion bach, bydd esemptiad i ysgolion cynradd sydd â Blwyddyn 6 ac y mae cyfanswm nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgol yn hanner cant neu'n llai na hynny ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

Anghydfodau

Mae'r Rheoliadau'n darparu mai'r Cynulliad sydd i benderfynu ar unrhyw anghydfod ynghylch a yw ysgol yn ysgol gynradd sy'n bwydo ysgol uwchradd benodol. Rhoddir gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer datrys anghydfodau yn y modd hwnnw.

Arweiniad Pellach

Dyroddir arweiniad pellach ar arfer swyddogaethau o dan adran 198 yn nes ymlaen.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

28 Chwefror 2006

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol